# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 437 | Ionawr 2023 | Pris £1


# *Rhoswen*



Gyda thristwch y daeth y newyddion fore Sul, Rhagfyr 4ydd am farwolaeth Rhoswen, ar ôl cyfnod hir o salwch.

Bu Rhoswen yn olygydd egnïol a gweithgar y Cardi Bach am bron i ddeugain mlynedd. Ie, ei babi hithe oedd y Cardi Bach ac estynodd ei chariad pennaf tuag ato, gan ei anwesu a'i fagu'n dyner a gofalus yn ystod ei ddyddiau cynnar. Tyfodd y papur i fod yn sefydliad cymunedol pwysig – ac roedd Rhoswen yn hynod falch o hynny ac ohono. Daliodd ati i arwain, datblygu a golygu'r papur bro am bedwar degawd sydd yn gyfraniad hollol ryfeddol. Cofiwn iddi wneud hyn o'i gwirfodd ar hyd y blynyddoedd, ac hynny yn nyddie'r "cut and paste" – nid yn oes y "copy and paste" fel sydd gyda ni heddi. Bu Rhoswen wrthi am orie dibendraw bob mis, yn torri erthygle / adroddiade ac ati, oedd wedi eu teipio, gyda siswrn, cyn eu gludo ar ddarne o bapur. Ein braint, anrhydedd a'n dyletswydd ni oedd talu teyrnged iddi llynedd, er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad am ei chyfraniad hollol anhygoel i'r broydd hyn. Cyflawnodd oes o wasanaeth dros ein hiaith a'n diwylliant ac yn sicr roedd yn un o gymwynaswyr mawr y broydd hyn.

Dangosodd Rhoswen yn gwmws yr un rhinweddau wrth olygu'r Cardi Bach ac y gwnaeth hi pan yn ein dysgu ni yn Ysgol Gynradd Ffynnonwen dros hanner canrif yn ôl – cofiwn am ei hangerdd, ei hasbri, ei brwdfrydedd heintus, ac am ei bwrlwm a'i hegni rhyfeddol, yn ogystal a gwres ei phersonoliaeth oedd yn eich tynnu tuag ati fel magned. Un oedd Rhoswen i'r byd, ond i'w disgyblion ysgol, hi oedd ein byd. Cawsom yr addysg gorau posib ganddi a bu ei dylanwad yn aruthrol, er nad oeddwn o bosib yn gwerthfawrogi ac yn sylweddoli hynny ar y pryd. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei hôl ond diolchwn am y fraint o gael ei hadnabod ac am y dylanwad mawr fu arnom.

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf â Roy ar ei golled enfawr, boed iddo drysori'r holl atgofion melys sydd ganddo am y bartneriaeth hyfryd flodeuodd rhyngddynt dros gyfnod o 60 mlynedd a mwy.

Mae'r englyn canlynol o eiddo Wyn Owens, cafodd ei gyhoeddi wrth anrhydeddu Rhoswen llynedd, dal yr un mor berthnasol nawr, wrth gofio am ei bywyd llawn a llawen. Coffa mor hyfryd a melys amdani. Eurfyl

I gofio Rhoswen

Ein cyfoeth ydyw cofio – am dy waith,
Mae dy hôl drwy'r henfro.
O fore oes rhoist i'r fro
Ddoe a gwên ran ddigwyno.


**Clwb Cymdeithasol Llanboidy**

**NOSON FAWR**

**CLWB 200 Y CARDI BACH**

**a Noson Gwis**

**yng ngofal Iola Wyn**

**Nos Wener, Chwefror 10fed, 2023**

**am 7.30 y.h.**

**Tîmau o 4 - £50 i'r tîm buddugol**

**Lluniaeth ysgafn ar gael**

Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:** | Roy Llewellyn 01994 448283 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **Cystadleuaeth** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Nansi Evans 01994 448392 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

## gan Iola Wyn, San Cler

A dyma ni ar ddechrau blwyddyn arall a 2023 yn barod amdanom!
Fe addewais yn rhifyn olaf 2002 y byddem yn sôn am fy antur i Gwpan Y Byd yn Qatar. Bu'n daith siomedig o safbwynt perfformiad pêl droedwyr Cymru ar y cae, ond roedd bod yng nghwmni cefnogwyr o wledydd o bedwar ban byd yn brofiad gwefreiddiol.

Roeddem eisoes yn gwybod cyn gadael Sanclêr na fyddai teithio o fan i fan yn Doha'n rhwydd. Er bod Cwpan y Byd y tro hyn mewn un ddinas fechan a'r stadiymau yn weddol agos at ei gilydd, yn hytrach nac ar wasgar mewn gwahanol ddinasoedd go brin y gwnes i ddychmygu y byddai angen cerdded rhyw 8 milltir bob dydd.

Roeddwn eisoes yn gwybod hefyd fod alcohol wedi ei wahardd mewn mannau cyhoeddus yn Qatar a'i fod ar werth mewn gwestai pum seren yn unig, a hynny am £13 - £15 y gwydryn! Ond yr hyn a'm synodd oedd fod ysmygu y tu mewn yn dderbyniol. Yn amlwg, dyw pob gwlad yn y byd ddim wedi gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus dan do.

Fe gefais wybod hefyd na ddyliwn estyn fy llaw chwith tuag at berson arall gan fod hynny yn hynod anghwrtais. Roedd hynny'n groes i'r graen rhaid cyfaddef, a finne yn ysgrifennu a gwneud popeth arall gyda fy llaw chwith, ag eithrio agor drws y car pan dwi yn sedd y gyrrwr !

Ar ôl cymryd y troad anghywir allan o'r llety ar y diwrnod cyntaf, fe aethom i lawr sawl stryd gefn, ac fe gymrodd hanner awr tan i mi weld dynes arall. Roedd hynny'n brofiad anghyfforddus, rhaid cyfaddef.

Ac oherwydd y drefn a'r rheolau oedd yno, roedd yn drueni mawr na fu mwy o gyfle i gymdeithasu â chefnogwyr o wledydd eraill. Dim ond ar y system drenau tanddaearol y byddai cyfle i siarad â chefnogwyr pêl-droed eraill, wrth i ni aros am y tren, neu tra'n sefyll neu eistedd ar y trenau eu hunain. Ac o gefnogwyr Awstralia i Frasil, yr Ariannin i Serbia a'r Almaen, roedd pawb yn gwybod ein bod ni'r Cymry yno wedi bwlch enfawr o 64 o flynyddoedd.

'Gareth Bale' oedd yr unig chwaraewr ar flaen eu tafodau, ond roedden nhw'n gwybod ym mhle roedd Cymru. Ac roedd yna un fantais fach, wrth orfod wynebu Lloegr yn y bencampwriaeth hon. Drwy herio'n gilydd yn yr un gêm, ar yr un maes, ar lwyfan rhyngwladol, roedd hi'n go amlwg nad ydym yn rhan o'r un wlad â'n cymdogion dros Glawdd Offa. Er fe wylltiodd un Americanwr â fi, gan ddadlau na ddylai Cymru gael yr hawl i chwarae fel gwlad, gan bod Abertawe a Chaerdydd yn chwarae yng nghyngreiriau Lloegr. Ond un dyn bach blin ymhlith miloedd o gefnogwyr cefnogol oedd hwnnw.
Do, bu'n daith hanesyddol er gwaetha'r canlyniadau siomedig.

Ar nodyn llawer pwysicach, gyda thristwch ddiwedd y flwyddyn, daeth y newyddion am farwolaeth Rhoswen Llewellyn a fu'n olygydd egnïol a gweithgar y Cardi Bach am ddeugain mlynedd. Mae dal ati i arwain papur bro am bedwar degawd yn gyfraniad cwbwl ryfeddol. Ac wrth gwrs roedd Rhoswen yn cyfrannu i nifer fawr o fentrau, cymdeithasau ac ymgyrchoedd eraill yn ei chymuned. Bydd bwlch enfawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn â Roy a'r teulu cyfan.

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@googlemail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

gan Y Parchg Beti-Wyn James

## Croeso i'r gegin

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich sylwadau caredig yn dilyn fy ymdrech i goginio *creme brulee* 'figan' ar rhaglen *Bwrdd i Dri S4C*. Bu'n brofiad yn un ddiddorol a dweud y lleiaf!

Ar gychwyn blwyddyn newydd sbon yn ein hanes, dyma '*Rysait blwyddyn newydd'* ar ein cyfer ni i gyd yn ffres o lyfr bywyd. Mae'r rysait hwn yn addas i bob angen dietegol, ac a dweud y gwir, does dim angen mynd yn agos i'r gegin o gwbwl i'w ddilyn. Co ni off felly.

1. Cymerwch ddeuddeg mis llawn. Gwnewch yn siwr eu bod yn hollol rhydd o hen atgofion chwerw a chas. Clanheuwch nhw yn dda gan gael gwared ar bob ysfa i lynu at hunanoldeb, trachwant a bychander.
2. Sicrhewch bod y misoedd hyn wedi eu rhyddhau o'r gorffennol gan wneud yn siwr eu bod yn ffres ac yn lân, yn union fel yr oeddynt pan ddaethant o ystordy amser yn y lle cyntaf.
3. Torrwch y misoedd hyn yn 30 neu 31 o rannau cyfartal, a chewch gadw un yn 28! Peidiwch â cheisio gwneud y cyfan i fyny ar yr un pryd (mae cymaint yn difetha'r cyfan fel hyn) ond paratowch un diwrnod ar y tro.
4. Arllwyswch mewn i bob diwrnod rannau cyfartal o ffydd, amynedd, dewrder a gwaith (mae rhai yn hepgor y cynhwysyn hwn – gwaith - ac felly'n difetha blas y gweddill), ynghyd â gobaith, ffyddlondeb, rhyddfrydedd, caredigrwydd, gorffwys (mae gadael 'gorffwys' allan fel gadael yr olew allan o dresin salad) gweddi a myfyrdod.
5. Rhowch ddracht o adduned ym mhob un ar gyfer blas.
6. Rhowch un llond llwy de o hwyl dda, diferyn o wên, pinsied o ffolineb, taenelliad o hamdden, a llond cwpanaid o hiwmor da.
7. Cymysgwch y cwbwl yn un flwyddyn bendithiol.

A dyna ni. Blwyddyn Newydd Dda i chi!

**Gweddiwn**

Cymorth ni o Dad nefol i ddefnyddio munudau ac oriau,
dyddiau ac wythnosau, misoedd a thymhorau'r flwyddyn newydd hon
yn synhwyrol, ac adeiladol.
Cofiwn mai Ti sy'n darparu amser ar ein cyfer.
Camwn i mewn i'r flwyddyn newydd hon yn dy gwmni Di,
Arglwydd amser a Brenin tragwyddoldeb.

**Cyfraniadau wrth Cynghorau Tref a Chymuned - 2022**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanboidy | £500.00 |
| Cyngor Cymuned Llanwinio | £250.00 |
| Cyngor Cymuned Bro Trelech a Betws | £100.00 |
| Cyngor Cymuned Llangynin | £100.00 |
| Cyngor Cymuned Tref Sanclêr | £50.00 |
| Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd | £250.00 |
| Cyngor Cymuned Henllanfallteg | £100.00 |
| Cyngor Cymuned Clunderwen | £200.00 |
| **Cyfanswm** | **£1,550.00** |

Diolch i'r cynghorau uchod am eu cefnogaeth i'r Cardi Bach

# Teyrnged Y Parch. Tecwyn Ifan i Rhoswen

Rwy'n credu mai dyma'r tro cynta i fi fod yn Ramoth heb fod Rhoswen yma. Ac mae'n deimlad gwag iawn heddiw.

Merch Tom a Doris Davies, Woodlands, Cwmfelin Mynach oedd Rhoswen. Aeth i Ysgol Gynradd Llanboidy cyn mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Hendygwyn lle y bu'n brifferch. Er y gallai yn hawdd fod wedi mynd i'r Brifysgol, merch ei milltir sgwar oedd Rhoswen ac i Goleg y Drindod Caerfyrddin yr aeth hi.

Tra yn yr Ysgol yn Hendygwyn dechreuodd y berthynas rhyngddi hi â Roy. Priododd y ddau yng Nghapel Ramoth mis Awst 1961. Dathlwyd eu priodas Ddiemwnt llynedd 2021.

Cafodd Rhoswen ei swydd gyntaf yn Ysgol Nantyffyllon, Maesteg yn 1960. Pan gafodd Roy swydd fel Gorsaf Feistr yn Johnston ger Hwlffordd penodwyd Rhoswen yn athrawes y Babanod yn Ysgol Ffynnonwen – yn rŵm bach! Yno ar yr un pryd â hi roedd Carol a Peter, brawd a chwaer i Roy, a bydde'r tri yn cerdded adre i Rhiw lle bydde Alice wedi paratoi te iddyn nhw. Wedi ymddeoliad Mr Griffiths penodwyd Rhoswen yn Bennaeth Ysgol Ffynnon Wen.

Pan gauwyd yr Ysgol yn 1972 fe ymunodd â staff Ysgol Beca, cyn mynd yn gyfrifol am Gylch Meithrin Ffynnonwen wedyn, lle bu'n gwasanaethu'n ddiwyd am ddeunaw mlynedd. Cafodd ddylanwad anghyffredin ar genedlaethau o blant, gan deilwra'r dysgu yn aml yn ôl galluoedd y plant.

Bu'n athrawes lanw wedyn yn Ysgol Beca, a gloywai llygaid y plant o'i gweld hi'n dod yno. Ei bag yn llawn trysorau, - a byddai stori o'r Beibl yn siwr o fod cyn diwedd y dydd – "Chewch chi 'mo'u gwell nhw" fyddai'n dweud. Roedd ei gwersi yn llawn cerddi a drama, ac yn sgil hynny roedd hanes yn dod yn fyw, a phlant wrth eu bodd yn ei chwmni.

Ar wahan i'w gyrfa ym myd addysg roedd ei bywyd cymdeithasol yn llawn iawn hefyd.

Bu'n olygydd y Cardi Bach am 40 mlynedd;
Sefydlu Merched y Wawr, Cangen Gronw 1975, ac yn aelod ers hynny. Bu'n Diwtor dosbarth Dysgu Cymraeg;
Bu'n ysgrifennu penillion ac emynau ar gyfer gwahanol achlysuron; (Un i Alice ei mam-yng-nghyfraith a enillodd y wobr am delyneg yn Eisteddfod Merched y Wawr ar y testun 'Y Ffin').

Y Ffin

Echddoe ar aelwyd ddiddan
A'i llygaid glas yn fflam,
Anwylo'r plant o'i chwmpas
Â gair a gwên wnai Mam;
A ninnau'r plant yn llawen griw
Yn croesi'r ddôr i hwyl ei byw.

Heddiw mewn cartref henoed
A'i llygaid glas yn bŵl,
Anwylo'r bwrdd a'r gadair
A'i geiriau'n eiriau ffŵl;
A ninnau'r plant, ag ofnus gam,
Yn methu croesi'r ffin at Mam.

Cafodd Rhoswen nifer o anrhydeddau:
Y Wisg Wen yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 2006; Medal Gee 2018 am dros 60 mynedd o ffyddlondeb i'r Ysgol Sul; Halen y Ddaear - Rhaglen Heno.

Ar ben hyn i gyd roedd hi'n wraig i Roy: Roy y Cynghorwr, Roy yr ymgeisydd seneddol, Roy yr ymladdwr dros bobol. Ie, Roy a Rhoswen, ro'n nhw fel un! Mae hyd yn oed yr enw Roy-a-Rhoswen yn swnio fel un gair!

Priodol iawn felly oedd i'r Hoelion Wyth osod plac ar wal Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen yn gynharach eleni i gydnabod Roy a Rhoswen am oes o wasanaeth i gymuned eang.

A dyma ddod wedyn at gysylltiad a chyfraniad Rhoswen i'r capel hwn, capel Ramoth. Pwy ddewisodd yr enw yma ar y capel hwn tybed? A pam y dewison nhw'r enw? Gallwch chi fentro y bydde nhw'n gwbod eu Beibl, ac yn gwbod mai dinas noddfa oedd Ramoth, ac ystyr hynny oedd ei bod hi'n fan diogel, yn lloches i ffoadur a phererin; roedd yno drugaredd a thosturi, gorffwystra i'r enaid a chysgod rhag y storm; caed yno lonyddwch - a maddeuant. Ai dyna pam tybed y galwodd pobol yr ardal hon y capel hwn yn Ramoth, am eu bod nhw am i'r lle yma fod yn fan saff, yn fan caredig, yn fan trugarog i drueiniaid?

"Chwiliai 'mam am air o blaid
pechaduriaid mwya'r lle" ebe Waldo.

Ac un felly oedd Rhoswen hefyd, roedd hi'n edrych ar y byd, edrych ar fywyd trwy lygaid trugarog, ac yr oedd trugaredd a thosturi i'w gweld yn ei llygaid hithau.

Ers dyddiau Dewi Sant bu Tŷ Ddewi yn ddinas noddfa. Mae yna lwybr yn croesi penrhyn Dewi o fôr i fôr, ychydig yr ochr hon i Dŷ Ddewi. Enw'r llwybr yw Ffos y Mynach. A phwy bynnag oedd ar ffo oddi wrth yr awdurdodau, os o chi'n croesi Ffos y Mynach, ro chi'n saff. Fe gaech lonydd.

I Rhoswen roedd croesi trothwy capel Ramoth Cwmfelin Mynach yn cynnig noddfa debyg. Roedd ei chrefydd hi yn grefydd gynnes, yn groesawgar a gobeithiol. Roedd ei ffydd hi yn ffydd hapus, yn serchog ac yn apelgar. Roedd hi'n credu mewn rhoi mynegiant llawen i'r ffydd Gristnogol. Dyna un o'r pethau oedd yn denu pobol ati.

Ac er bod yna ochr ddwys a difrifol i'r ffydd mynnai Rhoswen fod iddi hefyd ei huchelfannau llawen, ei hwyl, ei phleser a'i mwynhad. Ac roedd hi'n barod iawn i amlygu'r elfen lawen yna. Mewn sgetsus y bydde plant yr Ysgol Sul yn eu perfformio weithiau yn y capel, yn amal iawn fe fydde yna ryw hiwmor, rhyw sylw doniol gan y plant, a hwnnw'n llonni'r rhai oedd yn gwylio a'r rhai oedd yn cymryd rhan. Roedd Rhoswen yn ymgorfforiad o bregeth ola Dewi Sant: "Byddwch lawen, cadwch y ffydd, a gwnewch y pethau bychain …" Roedd hi'n byw y pethe hynny, yn ddiffuant ac yn ddidwyll. Dyna oedd hi'n neud, dyna oedd ei bywyd hi. Ac wrth fyw fel'na roedd eraill yn gweld rhywbeth o Dduw.

A dyna yw'r Nadolig ond taw e, hanes geni Mab a'i alw'n Imanuel, sef 'y mae Duw gyda ni'. Ac isie i bobol weld a sylweddoli'r gobaith hwnnw roedd Rhoswen, y gobaith bod Duw gyda nhw. A dyna fydde hi am i ni ei weld a'i deimlo yma heddi hefyd, bod Duw gyda ni, yn ei gysur, ei gynhaliaeth a'i obaith yn wyneb galar.

Ro'n i'n gweud ar y dechre mai dyma'r tro cynta i fi fod yma yn Ramoth heb fod Rhoswen yma. O'n i'n rong! Mae hi yma; mae hi yma yn ein cof ni; ry ni'n ei gweld, ry ni'n ei chlywed hi; nid yn llythrennol falle, ond ei gweld hi fel y bydde hi; ei chlywed hi fel y bydde hi. A thrwy hynny fe welwn ni eto, ac fe glywn ni eto, rywbeth o Dduw – yma, gyda ni.

Diolch am gael ei hadnabod a'i chael hi'n ffrind. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith. Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd. AMEN.

## COFIO RHOSWEN

Mae'n anodd. O! Mae'n anodd dweud ffarwel
Wrth gofio am haelioni'th fywyd llawn
I'th fro, a thithau yn ddiflino'n hel
Ei phlant ynghyd a meithrin lles pob dawn.
Dy weledigaeth di yw'r 'Cardi Bach,'
Dy drysor di am ddeugain mlynedd hir,
A'th arweinyddiaeth di fel awel iach
Yn chwythu 'iaith y nefoedd' trwy ein tir.
Y plant a'r bobl ifainc oedd dy fyd,
Dy gapel a dy ffydd yn ffordd o fyw,
Ac wrthi'n paratoi o hyd, o hyd,
A thithau'n llon bob amser wrth y llyw.
Mae dweud ffarwel yn anodd nawr i ni,
Mor wag Cwmfelin bellach heb-ddot ti.

*Peter Hughes Griffiths*

## Mawr ein dyled i Rhoswen

Diysgog ei chefnogaeth, - yn rhoddi
Drwy ymroddiad helaeth
Olau mwyn, gofal a maeth;
Oes hynod o wasanaeth.

*Aled Gwyn*

## *I Gofio Rhoswen*

Daeth fel chwa o awel iach
I barth Cwmfelin Mynach.

Fe'i ganed yn athrawes,
Llawn o fynd, a'i gwersi'n ffres,
(Onid yw'r cof am Rhoswen
Yn fyw o hyd yn Ffynnon-wen?)
Duwies y wlad ydoedd hi,
A'r plant yn ei addoli!

Ynghlwm wrth bob cyfeillach
Roedd hi'n un â'r *Cardi Bach.*
Cywain i'w 'Golygyddol'
Glecs y wlad, heb ddim ar ôl.
A rhoi i ninnau flas y wledd
Yn gyfan - hyd y diwedd.

I Roy y bu'n gydymaith
Sicr ei cham ar lwybrau'r daith,
Dau gydnaws yn cyd-weithio
I fywhau diwylliant bro,
A rhoi mewn ffotograffiaeth
Stori hir nas edrydd iaith.

Bardd a llenor gafaelgar :
Darn o bridd daear Shir Gâr.
Troi at rythmau'r delyneg
Oedd o hyd yn taro deg.
Gwau ysgrifau, a gamster
Ar roi ias mewn stori fer.

Â Merched y Wawr yn galw,
Rhaid oedd ymuno â nhw.
Llenwodd y gadair droeon
A rhyw wefr yn corddi'n ei bron.
O weld ein hiaith yn edwi,
Llusern y Gymraeg oedd hi.

Ar y Sul gwnaeth fwy na'i siâr
Yn Ramoth, roedd hi'n bilar.
Creu oedfaon o bob math,
Un o ruddin Goliath!
Ac weithiau, mewn dyddiau du,
Bu'n driw i ddilyn Iesu.

Y *Fedal Gee* oedd ran o'i stad,
Tystiolaeth o'i hymlyniad;
Ac o'i rhoi yn erw'r llan
Y mae Rhoswen ym mhobman!
Codaf fy nghap, i'w chofio hi,
A diolch i Dduw amdani.

*Eirwyn George*

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CRS CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

# *I'ch diddori* gan John Arfon

Blwyddyn Newydd Dda i bob un uhonoch, gan fawr obeithio y bydd yn un gwell na'r rhai diweddaraf. Byddai'n hyfryd gweld diwedd ar y lladd a'r rhyfela sydd yn ein cythryblu i gyd rwy'n siwr. Meddyliwch o ddifrif yr holl effaith mae'r gwrthryfela hyn wedi ei gael ar bawb ohonom.

Yn anffortunus collais nifer o ffrindiau da trwy farwolaeth yn ystod y mis diwethaf. Yn diyn damwain erchyll ac annisgwyl bu farw Huw Davies o Ganolfan Dewi Sant, o anafiadau yn Ysbyty Caerdydd. Roeddwn yn arfer ei weld a chael gair gydag ef bron bob dydd pan oeddwn yn mynd am goffi yn yr Hendygwyn.
Yna bu farw Kevin Davies o Boncath draw yn Qatar. Roedd yn gefnogwr brwd o beldroed a dilynai Gymru i bobman. Cefais y siawns o'i gwmniaeth pan fyddai tripiau o Ysgol y Preseli yn trafaelio i Gaerdydd i weld gemau.

Un arall a'n gadawodd oedd Mair Mathias, Heol y Gogledd. Roedd o hyd yn gefnogol o'r Cardi Bach a'r Clwb 200 ac yr oedd yn un o bileri Capel Nasareth a phob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar.

Yna collais un a oedd yr anwylaf o'r anwyliaid, a deuthum i adnabod Rhoswen Llewellyn yn dda flynyddoeed yn ôl drwy ei hymroddiad a'i gweithgarwch dros yr holl ardal a'r papur bro Y Cardi Bach, a oedd mor agos i'w chalon ac wedyn yn dilyn Perlau Taf gyda Roy ei chymar i bob cwr o Gymru. Bu ei chyfraniad i gapel Ramoth Cwmfelin Mynach ac i'r holl ardal yn amrhisiadwy.

Gallwn ymhaelaethu llawer mwy amdanynt ond rwy'n siwr y gallwch ddarllen yr holl deyrngedau iddynt yn y rhifyn hwn. Hoffwn gyfleu fy nghydymdeimlad dwysaf i'w holl deuluoedd ar yr amser trist hwn, ac hefyd i unrhyw rhai eraill sydd wedi colli anwyliaid cyn y Nadolig. Nid ant byth o'n cof.

Dyma atebion cystadleuaeth mis Hydref.
Am fy mod wedi gwneud camgymeriad yn rhan (a), gallech fod wedi cael nifer o atebion gwahanol, felly rwyf wedi dileu y rhan hwn.

(b) Atebion "Adeiladu Wal Frics

1. Penisel, 2. Pensil, 3. Pilen, 4. Epil, 5. Eli, 6. Lein, 7. Encil, 8. Clipen, 9. Clepian.

(c) Atebion Celloedd Mêl y Gwenyn.

1. Cynnar, 2. Gwynfa, 3. Agored, 4. Cilfan, 5. Cywion, 6. Cariad, 7. Clirio, 8. Nofiwr, 9. Hofran.

Y cyntaf allan o'r het y tro hwn ac sy'n ennill y wobr o £5 oedd Gwlithyn Jones, Dryslwyn, gyda Phyllis Hughes, Pwlltrap yn ennill yr ail wobr o lyfr. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir:- Peter Crowdie, San Cler; Meryl Jones , Talog; John Lewis, Meidrim; Dorothy Williams, Efailwen; Tegwen James, Jane Evans, Blaenwaun; Nesta Rees, Pwlltrap ac Olwen Gibbon, Heol Llysonnen.

Dyma atebion y cwsorw a'r Chwiair Mis Hydref

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | O | X | O |
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | X | O | X |
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 9 | 5 | 4 | 2 | 6 | 8 | 3 | 7 |
| 8 | 4 | 2 | 1 | 3 | 7 | 9 | 6 | 5 |
| 6 | 7 | 3 | 5 | 8 | 9 | 4 | 1 | 2 |
| 5 | 2 | 8 | 7 | 6 | 3 | 1 | 9 | 4 |
| 3 | 6 | 9 | 2 | 4 | 1 | 5 | 7 | 8 |
| 7 | 1 | 4 | 8 | 9 | 5 | 3 | 2 | 6 |
| 4 | 8 | 1 | 9 | 7 | 2 | 6 | 5 | 3 |
| 2 | 5 | 6 | 3 | 1 | 4 | 7 | 8 | 9 |
| **9** | **3** | **7** | **6** | **5** | **8** | **2** | **4** | **1** |

Dyma ddau arall i'ch diddori

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | | | |
| O | | | X | O | |
| | | O | | | |
| | | | | O | |
| | X | | | | X |
| | X | | X | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 | 8 | | | | 6 | | |
| 2 | | | 5 | | 4 | | 7 | |
| 7 | | | 8 | | | 9 | | 3 |
| | 1 | 2 | | 7 | | | 6 | |
| | | | 2 | | 6 | | | |
| | 3 | | | 4 | | 5 | 2 | |
| 4 | | 3 | | | 9 | | | 5 |
| | 7 | | 4 | | 1 | | | 6 |
| | | **6** | | | | **8** | **9** | |

Dyma ddau bôs i'ch difyrru yn unig y mis hwn. Bydd yr atebion yn ymddangos yn rhifyn Mawrth.

Y cyntaf yw "Cwpan y Byd".

I'r dde, cewch enwau'r holl wledydd oedd yn cymeryd rhan yng Nghystadleuaeth Cwpan y Byd dros y misoedd diwethaf. Ceisiwch eu darganfod mewn un llinell ddi-dor yn y grid sydd yn dilyn. Mae llawer man lle y gallwch fynd ar gyfeiliorn felly cymerwch ofal mawr. Dechreuwch gyda'r llythyren gyntaf ar dop yr ochr chwith a dylech (os yn gywir) ddiweddu gyda'r llythyren olaf ar waelod dde y grid. Gall y llinell gysylltiol fynd lan neu lawr, i'r chwith neu'r dde ond nid o gornel i gornel. Cymerwch ofal.

Dyma enwau'r timoedd i'w canfod:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Almaen | Cymru | Iran | Sbaen |
| Ariannin | De Corea | Iseldiroedd | Senegal |
| Awstralia | Denmarc | Lloegr | Serbia |
| Brasil | Ecwador | Mecsico | Siapan |
| Camerwn | Ffrainc | Morocco | Swisdir |
| Canada | Ghana | Portiwgal | Twnisia |
| Costa Rica | Gwlad Belg | Qatar | UD America |
| Croatia | Gwlad Pwyl | Sawdi Arabia | Wrwgwai |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | A | D | P | A | I | S | D | I | T | W | N | W | R | W |
| W | L | Y | W | E | R | E | L | R | L | A | I | A | W | G |
| E | M | L | L | D | O | Dd | E | O | W | G | S | I | A | I |
| R | A | C | I | E | C | U | P | O | I | I | N | A | N | G |
| W | N | B | S | M | A | D | A | R | T | N | N | A | A | H |
| L | A | R | A | E | R | B | I | C | O | M | A | W | S | T |
| C | G | E | I | R | E | S | O | C | R | O | I | R | A | R |
| R | O | N | C | A | S | A | I | A | B | I | O | E | A | A |
| T | A | E | S | R | I | W | D | R | A | A | Ll | G | I | L |
| I | C | U | A | S | D | I | R | S | O | C | G | R | G | W |
| A | E | O | D | I | W | C | A | T | I | N | L | E | B | L |
| L | A | R | M | E | S | A | Ff | R | A | C | Q | A | D | A |
| M | A | D | A | C | A | E | N | N | E | D | U | T | A | R |
| N | E | A | I | S | B | R | A | M | P | A | R | M | R | I |
| C | A | N | C | O | S | C | S | I | A | N | C | Y | A | N |

Yr ail bôs yw cwblhau y Chwilrif mawr.
Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 9 | 3 | | | | | 4 | | | |
| 1 | | | | 10 | | | | | 11 | 8 | 2 |
| 11 | | 4 | 5 | 3 | 12 | 1 | | | | 9 | |
| 12 | | 10 | | | 2 | 4 | | 5 | | 11 | 8 |
| 3 | 5 | | | | | | | | 4 | | 12 |
| 4 | | | 7 | 1 | | | 3 | | 2 | | |
| 7 | | | 4 | 5 | | | 9 | | 8 | | |
| 5 | 6 | | | | | | | | 1 | | 7 |
| 9 | | 2 | | | 10 | 6 | | 11 | | 5 | 4 |
| 8 | | 1 | 10 | 4 | 6 | 5 | | | | 3 | |
| 6 | | | | 2 | | | | | 7 | 1 | 10 |
| | | 3 | 11 | | | | | 12 | | | |

Pob hwyl ichwi gyd, a cadwch yn saff o'r Covid a'r Ffliw dros y misoedd nesaf hyn.

# Noson Hwyl y Nadolig
# Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda


Am y tro cyntaf erioed, fe wnaeth Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda gynnal noson 'Hwyl y Nadolig' yn Neuadd y Farchnad Llanboidy ar nos Wener, Rhagfyr 2il. Dyma dorri ar y traddodiad o gynnal Oedfa o Fawl i drosglwyddo arian y daith gerdded flynyddol er mwyn estyn allan i'r gymuned ehangach a cheisio rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i waith y Gymdeithas. A dyna yn sicr a wnaed. Cafwyd noson arbennig iawn a'r neuadd dan ei sang. Llywyddwyd y noson gan Gadeirydd y Gymdeithas, Eurfyl Lewis. Darparwyd yr adloniant gan Clive Edwards (Clive Cwm miles ), Beti a Siân a Chôr Meibion Hendygwyn, dan arweiniad Hefina Jones a cyfeiliant Heather Jenkins a chafwyd pytiau o gyd ganu carolau dan arweiniad Huw George a cyfeiliant Heather Jenkins. Diolch yn fawr iawn i'r artistiaid i gyd am roi eu gwasanaeth, a hynny am ddim.

Trosglwyddwyd yr arian i'r dair elusen sef Ambiwlans Awyr Cymru, Diabetes Cymru a Meddygfa Preseli, pob un yn derbyn siec o £1,300 yr un. Cafwyd gair o ddiolch gan Joe Kuff ar ran Diabetes Cymru a gan Francesca Phillips ar ran Meddygfa Preseli. Diolchodd Eurfyl i bawb wnaeth gymryd rhan, i bawb wnaeth helpu i baratoi'r neuadd ar gyfer y noson, i bawb wnaeth gyfrannu gwobre raffl, i'r gynulleidfa am gefnogi ac yn arbennig i'w gyd swyddogion sef Janice Morgan, yr ysgrifenyddes a Tony Eynon, y trysorydd am eu cymorth parod a'i cydweithrediad arferol.

Noson hwylus a llwyddiannus iawn a phawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod at ei gilydd i fwynhau a chymdeithasu unwaith eto. Roedd yn ddechreuad hyfryd i gyfnod y Nadolig. Y gobaith yw y gellir cynnal digwyddiad tebyg eleni eto!



Yr artistiaid fu'n diddanu - Clive Edwards, Beti a Sian a Côr Meibion Hendy Gwyn gyda'i harweinyddes Hefina Jones a'r gyfeilyddes Heather Jenkins.




Joe Kuff, Ymchwil Clefyd y Siwgir a Francesca Phillips, Meddygfa Preseli yn derbyn sieciau am £1300 yr un wrth Eurfyl Lewis, Janice Morgan a Tony Eynon, swyddogion y Gymdeithas. Nid oedd modd i gynrychiolydd o Ambiwlans Awyr Cymru fod yn bresennol oherwydd salwch.

## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda
## Taith Gerdded 2022

| | |
|---|---|
| Bethel Llanddewi | £100 |
| Bethel Mynachlogddu | £210 |
| Blaenconin | £200 |
| Calfaria Login | £300 |
| Cefnypant | £115 |
| Cwm miles | £150 |
| Ffynnon Llanddewi | £100 |
| Glandwr | £75 |
| Hebron | £100 |
| Henllan Amgoed | £390 |
| Llwynyrhwrdd | £350 |
| Moriah | £258 |
| Nasareth Hendygwyn | £150 |
| Nebo | £277 |
| Pisgah | £150 |
| Ramoth Cwmfelin | £270 |
| Rhydyceisiaid | £60 |
| Rhydwilym | £130 |
| Tabernacl Hendygwyn | £200 |
| Trinity Llanboidy | £115 |
| **Cyfanswm** | **£3,700** |

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

gan *Albie Abbot*

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd. Gobeithio bod chi'n ymdopi er gwaetha prisiau bwyd, trydan a'r GIG, i enwi ond rhai. Ond down ni drwyddo wi'n sicr.

Dyma rywbeth i chi ar gyfer 2023 - Pob lwc, *Albie*

## GEIRFA: Byw

Bywyd, bywiog, bywiogi, bywiogrwydd, bywoliaeth, bywydeg, yn fyw, i'r byw.

Llenwch y bylchau isod

Roedd pawb wedi ……………..drwyddynt ar ol clywed eu bod am gael gwyliau.

Mae fy merch yn astudio cemeg, ffiseg a .............ar gyfer ei haroliadau safon uwch.

Ces i fy mrifo …………….gan eiriau llym y pennaeth.

Mae …………….yn rhy fyr i ni wastraffu amser yn dadlau.

Sut mae trigolion yr ardal yn mynd i ennill eu ………………….ar ol i'r ffatri gau?

Ydy'ch rhieni'n dal yn ………………………..?

Roedd y plant yn dal yn ……………………er ei bod hi'n hanner nos.

**Newidiwch y gair mewn print bras a'i roi yn y bwlch yn y frawddeg:-**

| | |
|---|---|
| LLEFARU: | Dywedodd ................mai tipyn bach o sbri oedd y cyfan. |
| GADAEL: | .........................Sarah Jones ei chartref i fynd i'r dre. |
| PERTHYNAS: | Dechreuodd ..................'r ferch gwyno. |
| MILLTIR: | Chwiliwyd y ddaear am ......................o gwmpas. |
| DYCHRYN: | Cafodd y dyn ofn........................ |
| EFFAITH: | Roedd e'n meddwl bod y gwin wedi .................arno |
| GWAS: | Roedd dau o ......................y dafarn yn disgwyl y Goets. |
| GWELL: | Dyw'r tywydd ddim wedi ........................ |
| ARBENNIG: | Pam oedd rhaid i mi weld .......................... |
| PYSGOD: | Ond fyddwch byth yn ....................... |
| BLWYDDYN: | Roedd y garafan wedi cludo ei dad-cu am ................maith. |
| TEULU: | Oes gwreiddiau ...................gennych yng Nghymru? |
| BYW: | Dyn yn hoffi .....................tawel oedd Tomos. |
| DROS: | Roedd pobl yn dod at y bont ac yn dadlau ynglyn a'r tal i fynd.......... |
| CARREG | Roedd y ffordd yn ...................... |
| TWLL: | Roedd hefyd yn ..................... |
| RHESWM: | Am y ..........................hyn i gyd, doedd Tomos erioed wedi bod yn hapus |

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen,
Llangynin, San Clêr, SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Blwyddyn Newydd dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyd.

Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn ar gyfer ei chwblhau a'i danfon ataf i. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol. Roedd gennym 689 o aelodau y llynedd ac edrychaf ymlaen at flwyddyn lewyrchus eleni eto.

Llongyfarchiadau i enillwyr Tachwedd/Rhagfyr:-

233 - £20 - Wyn a Meirwen Evans, Cwmfelin Mynach.

649 - £10 - Delyth Roblin, Fferm Glynty, Clunderwen.

Diolch i chi gyd a chadwch yn ddiogel,

Rhian




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
*CLUDIANT*



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Y llywydd yng nghyfarfod mis Tachwedd oedd Wenfys Rees. Croesawodd bawb a deliwyd gyda'r materion oedd yn codi ers y cyfarfod mis diwethaf. Ein person gwadd oedd Delyth Robinson, Rhydcaernarfon, Blaenwaun. Merch ifanc sydd wedi mentro i fyd busnes sef gneud sebon allan o laeth buwch. Enw'r busnes yw "Mootiful".

Cafodd ei hysbrydoli i ddechrau'r busnes oherwydd bod ganddi alergedd yn erbyn nifer fawr o gynhwysion sebonau cyffredin. Brasluniodd y broses o gynhyrchu a'r rheolau a safonau oedd rhaid cyrraedd cyn cynyrchu. Cynhwysion naturiol a ddefnyddir yn unig gyda llaeth y fuwch. Y cyfan yn cael eu gwneud gyda llaw. Synnwyd at ystod y cynhwysion a'r aroglau oedd yn creu sebon o ansawdd arbennig ac at nifer fawr o ddibynion. Diolchodd Wenfys iddi am ei mentergarwch a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.
Paratodd Mary a Susan y tê ac enillwyd y raffl gan Rhainnon.

Daethom at ein gilydd i'r Picton, Llanddowror ar ddydd Iau, Rhagfyr 15fed i fwynhau ein cinio Nadolig. Ond deuddydd yng nghynt roeddem wedi dod ynghyd i gapel Ramoth, Cwmfelin Mynach, i angladd Rhoswen,



sefydlydd Cangen Gronw o Ferched y Wawr. Cyn i ni eistedd a dechrau ar ein dathliadau, priodol oedd i ni gofio amdani, a thalu teyrnged iddi. Rhai blynyddoedd yn ôl, bu'r gangen yn dathlu ei phenblwydd yn bedwar deg mlwydd oed, a bu Rhoswen yn chwilota am luniau a chofnodion ar gyfer y dathlu. Ymfalchiai yn llwyddiant y Gangen, y cystadlu ac ati, ac ymhyfrydai yn yr atgofion. Mor fyrlymus a brwdfrydig oedd ynghlŷn â holl weithgareddau'r gangen, ac mor werthfawr oedd ei chyfraniad hi i'r gweithgareddau hynny.

Merched y Wawr, Capel Ramoth, Ysgol Ffynnonwen a byd addysg, papur bro 'Y Cardi Bach', bywyd beunyddiol pobol ei milltir sgwâr – dyma oedd yn bwysig i Rhoswen, ac yn ddolen gyswllt rhyngddyn nhw i gyd, oedd yr iaith Gymraeg. Medrai ysgrifennu a barddoni, a dwin siwr bod yna dorreth o'i gwaith ym Mro Gronw.

Cafodd ddylanwad uniongyrchol ar addysg cannoedd o blant, ac mor falch oedd hi ohonynt i gyd. Roedd ganddi ffordd gartrefol iawn o siarad ac annerch pobl, yn enwedig plant. Os deuai ar draws cyn-ddisgybl oedd yn wreiddiol o gartref di-Gymraeg, fe fyddai'n mynegi ei balchder ohono neu ohoni, ac yn ei llongyfarch. Fe wnai'n fawr o bob cyfle i fynegi bod addysg cyfrwng Cymraeg yn agor drysau!

Ni allwn ddechrau rhestru yr hyn a gyflawnodd Rhoswen wrth roi ei hegni, ei hamser ac yn wir ei bywyd, i'r hyn oll oedd yn bwysig iddi. Rydym wedi colli un a gyfrannodd yn helaeth i fywyd ei bro ac i'r iaith Gymraeg. Mae'n gyfraniad amhrisiadwy.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Roy, ei gŵr. Gyda'i gilydd roedden nhw'n dîm da – ac os oeddech yn siarad ag un, fe fyddai'r un yn siwr o gyfeirio at y llall rhywle yn y siarad!

Trysorwn ein hatgofion o Rhoswen, ac ymfalchiwn ein bod wedi cael y fraint o'i hadnabod.
Wrth eistedd i fwynhau ein cinio, roeddem hefyd yn meddwl am dair aelod o'r gangen nad oedd yn medru bod gyda ni, sef Nansi, Irene a Marion. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddyn nhw.

Llywyddwyd gan Valerie.
Diolchwyd i Valerie am y deyrnged hyfryd i Rhoswen ac am baratoi adloniant arbennig ac amserol. Hefyd diolchwyd i Meirwen ac Eirwen am drefnu'r cinio, ac hefyd i staff y 'Picton' am baratoi pryd blasus iawn i ni.

Byddwn yn cwrdd nesa am sgwrs a phaned ar brynhawn dydd Iau, Ionawr 26ain, am 1.30, lleoliad i'w gadarnhau.

---

## Cangen Beca

Ym mis Rhagfyr gwnaeth aelodau'r gangen gyfarfod yng Nghaffi Beca i fwynhau cinio Nadolig. Diolch i Robert a'r staff am baratoi pryd o fwyd blasus iawn yn ôl yr arfer. Enillwyd y raffl misol gan Verona Davies, a gwnaeth Angharad, Verona, Eilir, Rhian, Anona a Hilary ennill gwobrau Raffl y Nadolig.
Diolch i Angharad am baratoi cwis Nadoligaidd. Llawer o hwyl wrth geisio dod o hyd i'r atebion a chafwyd prynhawn wrth fodd pawb.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Edrych ymlaen nawr i gyfarfod mis Ionawr pan fyddwn yn croesawu Bethan Picton Davies atom. Janet Harries fydd yn dod i'n diddori ym mis Chwefror. Edrychwn ymlaen i'r ddau gyfarfod.
Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

## Cangen San Cler

Cyfarfu'r gangen yn Yr Hen Ysgol ar nos Fawrth, Tachwedd 15fed. Croesawyd pawb gan yr Is-lywydd Eileen. Croesawyd aelod newydd, sef Jane Morgan. Cydymdeimlwyd â Pat ar farwolaeth ei brawd. Llongyfarchwyd Ann Thomas ar enedigaeth gor-ŵyres.

Roedd Iona, Margaret a Beti-Wyn wedi paratoi arddangosfa o waith y gangen gogyfer â Arddangosfa'r Lleng Brydeinig yn y Gât.

Cwis Hwyl Cenedlaethol – Diolchwyd i'r tîm, Eileen, Lilwen, Iona a Beti-Wyn a ddaeth yn gydradd ail yn y Rhanbarth a 10fed yn Genedlaethol.

Cyflwynodd Eileen y siaradwraig wadd, sef Ann-Marie Lewis o Flaenycoed. Diddorol oedd clywed hanes bywyd Ann- Marie yn enwedig ei phrofiad o fod yn athrawes allan yn y Wladfa cyn dychwelyd a gweithio fel athrawes ynghyd â threfnu teithiau i Batagonia. Gan iddi golli ei swydd yn ystod y cyfnod clo dechreuodd fusnes newydd, Cwtsh drwy'r Post, lle mae'n danfon bocsys o "treats" drwy'r post. Mae'n gwerthu nwyddau Neal's Yard a chlywsom am ei llwyddiant a'r gwobrau mae wedi eu hennill gyda'r cwmni. Dangosodd rai o'r cynnyrch mae'n eu gwerthu a chafodd pawb gyfle i drafod a phrynu.

Diolchwyd i Ann-Marie, ar ran y gangen, gan Beti a oedd yn adnabyddus â Ann-Marie gan iddi fod ar rai o'r teithiau roedd Ann-Marie a'i gŵr, Fabio, wedi eu trefnu i Batagonia.

Mwynhawyd te a chacen a ddarparwyd gan Sue o Yr Hen Ysgol. Rhoddwyd gwobr raffl gan Iona ac fe'i henillwyd gan Rhian.

## Cangen Hendygwyn

Ar un o ddiwrnodau oeraf 2022, sef Rhagfyr 13eg, cynhalion ein cinio Nadolig flynyddol yn yr Hen Ysgoldy yn Sancler. Oherwydd salwch, method rhai fod yn bresennol ond roedd y mwyafrif helaeth ohonom ni yno i fwynhau'r wledd arbennig oedd y staff caredig wedi ei pharatoi i ni.

Roedd elfen o dristwch ynghanol y ddathlu oherwydd ein bod wedi ffarwelio a dwy o'n cyn aelodau. Colled fawr i'r ardal oedd colli Rhoswen Llewellyn – un o aelodau cyntaf cangen Hendygwyn, cyn i gangen Gronw gychwyn. A hefyd, wrth gwrs, ein hannwyl Mair Mathias a fynnodd dalu ei thâl aelodaeth hyd y diwedd er nad oedd bellach yn medru mynychu'n cyfarfodydd oherwydd salwch. 'Mae cael darllen 'Y Wawr' yn werth e bob dimau,' oedd ei byrdwn. Mair hefyd oedd yn gosod ac yn argraffu'n rhaglen ni bob blwyddyn yn hollol ddiffws a diffwdan. Ym 1989 bu'n ysgrifennyddes y gangen a phan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandeilo ym 1996, hi oedd yr ysgrifennyddes rhanbarth. Mae colled fawr ar ei hôl hi. Cafwyd funud o dawelwch i gofio am y ddwy annwyl.

Dosbarthwyd Sach Santa a bu llawer o dynnu cracers cyn i ni ddiolch o galon i staff a pherchnogion Yr Hen Ysgoldy am fwyd a chroeso arbennig.

Natalie Jones fydd ein gwraig wadd ar Ionawr 17eg. am 2.30 yng Nghanolfan Hywel Dda. Blwyddyn Newydd Dda i'n holl aelodau!



Cinio Nadolig y gangen

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# EISTEDDFOD YR URDD SIR GÂR 2023

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023
Ardaloedd Meidrim, Alma, Penybont, Talog a Threlech

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r ardaloedd uchod wedi bod yn brysur yn cynnal gweithgareddau amrywiol i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023.
Ar Fedi 23ain, cawsom Noson Goffi gydag amrywiaeth o stondinau yng Nghanolfan Alma. Llywydd y noson oedd Mr David Thomas (Jin Talog), Dysgwr y Flwyddyn 2021.

Yna ar y 25ain o Dachwedd, gwelsom dalentau lleol ar eu gorau yn ein Noson Lawen yn Neuadd Bronwydd. Arweinydd y noson oedd Mr Dai Baker a'r Llywydd oedd Mr John Howells, Brynamlwg, Talog. Artistiaid y noson oedd: Ysgol Hafodwenog; Ysgol Meidrim; Ysgolion Llanpumsaint a Chynwyl Elfed; Aelwyd Hafodwenog – Côr Hŷn ac Unawd gan Celyn Richards; Aelwyd Cynwyl Elfed; CFfI Penybont - Unawd Offerynnol gan Daniel O'Callaghan a deuawd gan Hannah a Celyn Richards; Clocswyr Cowin; Dawnswyr Talog a Mr Gerwyn Rhys - Unawdydd Côr Llanpumsaint.

Taith Tractorau Nadolig oedd y digwyddiad olaf yn 2022. CFfI Penybont wnaeth drefnu a chynnal y noson arbennig hon gan gyfrannu'n garedig iawn yr holl elw tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr. Teithiodd tua 40 o dractorau wedi eu haddurno'n Nadoligaidd drwy'r ardaloedd cyn gorffen yn Nhafarn Beca i gael swper. Beirniadwyd y tractorau mwyaf Nadoligaidd gan Mrs Linda Davies - Llywydd CFfI Penybont a Miss Indeg Jameson - Cadeirydd y Pwyllgor Apêl. Yr enillwyr oedd Mr Aled Bowen, Treto a Mr Gareth Williams, Blaenbryn. Gorffennwyd y noson gyda Mr Malcolm Evans yn cynnal ocsiwn.



Dyma lun o CFfI Pen y bont yn cyflwyno siec o £1720.82 i Swyddogion Pwyllgor Apel yr Urdd, Alma, Meidrim, Pen y bont, Talog a Threlech.




Phillips

## PWDIN ARBENNIG

**Cynhwysion:-**
¼ peint o friwsion bara
½ peint o laeth
Croen lemwn wedi ei gratio
1 llwy ford o siwgwr caster
2 llond llwy fwrdd o jam coch
1 owns o fargarin
2 melyn wy

**DULL**

Twymwch y llaeth a'i arllwys ar y briwsion bara, margarin, croen lemwn wedi ei gratio.
Gorchuddiwch y gymysgedd a'i adael am hanner awr.
Ychwanegwch y ddau melynwy wedi eu curo.
Arllwyswch i badell goginio addas a'i bobi am tua awr.
Wedi iddo oeri, rhowch y jam drosto .
Whipiwch y gwyn wyau yn galed gan ychwanegu'r siwgwr.
Rhowch y meringue dros y pwdin gan ysgwyd ychydig o siwgwr caster drosto.
Nôl i'r ffwrn (180°C) a phobwch nes fod y top yn barod (15 – 20 munud).

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Colofn Garddio

*gan W John Davies*

Well, dyma fi yn eistedd lawr i ysgrifennu ar brynhawn y 4ydd o Ionawr, a hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r darllenwyr oll. Mae'n debyg fod llynedd wedi bod y flwydddyn sychaf erioed mewn cof, a chafwyd gwynt oer gogleddol a haul tanbed diddiwedd. Er hyn, cefais ardd dda dros ben, ond roedd angen fod yn or ofalus gyda'r dyfrhau.

Erbyn hyn, mae'r ardd yn wag heblaw fod eisiau codi un rhych fach o gennin a rhyw ddwsin o fetys, ond mae rhain yn iawn ac yn medru dioddef tywydd rhew cymhedrol. Fe gefais gnwd aruthrol o foron - y gorau erioed, ond pan oeddwn yn codi y rhai olaf cyn y Nadolig sylweddolais fod y Gleren Foron, ("Carrot fly"), wedi ei ffeindio eto, a hynny yn hwyr iawn yn y flwyddyn. Felly fe fydd rhaid mynd ati i chwistrellu a gwnaf hyn mor gynted a gawn rhyw ddau neu dri diwrnod o dywydd sych. Y driniaith yn syml yw tair llawn llwy ford o 'domestos' mewn galwyn o ddŵr, ac yna pum galwyn i bob llathen sgwar o dir a mae hyn yn ddigon i'w waredu. Ar hyn o bryd mae ei wy yn disgwyl i'r pridd dwymo a byddant yn deor tua canol mis Mai. Mae'r driniaith hyn yn hollol saff, ac mi allwch hau hadau mân ar yr un tir rhyw bythefnos ar ôl y driniaith.

Rwy'n cyfaddef fod hyn braidd yn hynod, ond ar y llaw arall, lleuad y mwydon neu lleuad mis Mawrth, yw tymor geni holl fwydon sydd yn ein gerddi. Ar ôl ymchwil personol, mae rhain llawer cryfach wedi'r driniaeth, a mae popeth yn tyfu llawer iawn gwell hefyd.

Ar hyn or bryd mae holl bapurau newydd y wlad yn llawn cyngor ffordd i fyw yn rhatach - ffordd i arbed gwario arian er mwyn gallu byw heb fynd i ddyled. Nid oes sôn yn un man am geisio garddio ar raddfa fechan. Mae ymchwil wedi ei wneud ac mae yn hollol bosib i dyfu dau gan kilo o lysiau ar ddwy lathen o dir mewn blwyddyn. Os yn dechrau yn unig, camgymeriad yw ceisio gwneud gormod ar un waith. Mae 1200 o hadau letys mewn un pecyn o letys a phwy yn y byd sydd angen yr holl hyn? Heuwch ond hanner dwsin o hadau ar y tro, a gwnewch yr un peth gyda popeth arall. Fel hyn, mae magu diddordeb ac mae hefyd yn bwysig i ddeall fod rhaid i bob hadyn gael gwres, lleithder a golau ac wedyn, gan ddefnyddio synwyr cyffredin, bydd y diddordeb yn ffynn'n reit gyflym.


Pob lwc i bawb sydd yn hau am y tro cyntaf, ond cofiwch mae rhaid cael gwres naturiol.



Rwy'n cofio fel plentyn yn gofyn i'm tad-cu y ffordd i wybod pryd roedd pridd yr ardd yn barod i hau a dyma oedd ei ateb a gwên slei ar ei wyneb. "Dim ond un ffordd sydd i gael sy'n dal dŵr, mae gofyn i ti allu eistedd yn y pridd, ar dy ben ôl noeth am dri o'r gloch y bore - amser oeraf y nos".

## Ennill cystadleuaeth hamper Facebook Y Cardi Bach





Iola Wyn (Is-gadeirydd y Cardi Bach) yn cyflwyno hamper i Rhian Lawrence, Saundersfoot - enillydd cystadleuaeth Nadolig tudalen Facebook y Cardi Bach. Yn wreiddiol o ardal Meidrim. Llongyfarchiadau mawr iddi.


Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857


# BLAENWAUN

Dymunwn adferiad buan i David Davies, Elwyn, Blaenwaun sydd wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty.

Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau y diweddar Tom Morris, gynt o Pantymaen a Fferm Blaenwaun, ac Awenydd, San Clêr a fu farw ar 28ain Rhagfyr. Roedd wedi treulio ei flynyddoedd diwethaf yng nghartref Garreg Lwyd. Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Sadwrn, 7fed Ionawr ym Mharc Gwyn. Yr ardal wedi colli cymeriad arbennig.

**Moriah**
Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am gynnal oedfa yng Nghartref Garreg Lwyd ar Ddydd Iau, 15fed o Ragfyr yng nghwmni ein haelod hynaf, Glyndwr Davies a phreswylwyr eraill. Roedd Glyndwr wedi cael bendith o'r oedfa ynghyd â'i gyd breswylwyr. Diolch i Iori Saer am fod yn bresennol hefyd ond yn anffodus methodd rhagor o'r aelodau fod yn bresennol. Gobeithir cynnal oedfa eto yn y dyfodol agos.

**Sul 8fed Ionawr** - Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth. Thema'r oedfa oedd yr ystwyll. Rhannwyd digon o syniadau i ni fyfyrio arnynt a'u gweithredu.

**Sul 5ed Chwefror** - oedfa Parchedig Gareth Ioan am 1.30. Croeso cynnes i bawb.

**Sul Chwefror 26ain**:
**Gŵyl Rhinwedd a Moes**: Cynhelir Brecwast am 10 o'r gloch yng Nghaffi Beca. Pris £10 a chasgliad at Apêl Leukaemia. Siaradwr gwâdd fydd Mereid Hopwood. Enwau i'r ysgrifennydd erbyn Chwefror 19eg.

# RHYDWILYM

Roedd yn dawel iawn yn y Cwm yn ystod y Nadolig.

**Gwasanaethau**
Chwefror
5ed: 10.30 - i'w drefnu
26ain 10.00 - Brecwast Gŵyl Dewi yng Nhaffi Beca yng nghwmni Mererid Hopwood.

Mawrth
5ed: 2.00 - Cymun - Annalyn Davies
19eg: 10.30 - Lyndon Lloyd

Diwedd y flwyddyn 2022, bu farw Ryan John, brawd Beryl John, a hefyd Mair Matthias, chwaer Iwan Lewis. Rydym yn cydymdeimlo gyda Beryl, Iwan a'r ddau deulu i gyd.

Pob bendith i bawb yn y flwyddyn 2023.

# PWLL TRAP

Mae Myra Davies wedi symud i fyw yn Bryntirion. Dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd a chroeso i Bwll Trap.

Penblwydd Hapus i Eric Hughes a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Ragfyr 27ain. Mae Phyllis, ei wraig, wedi cael llaw-driniaeth ar ei chalon a da yw deall ei bod ar wellhad.

Mae Huw Lewis, Pennant, wedi derbyn llaw-driniaeth yng Nghaerdydd. Dymunwn wellhad buan iddo.

Hefyd, mae Eirian Jones, Dolannog, wedi derbyn triniaeth a danfonwn ein dymuniadau gorau ati hithau.

Mae Isabelle Protheroe, Highlands, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty dros y Nadolig a da yw deall ei bod nawr ar wellhad.

Llongyfarchiadau i Lisa John ar enedigaeth mab bach, James a llongyfarchiadau, hefyd i dadcu a mamgu, sef Bertie a Wendy John.
....hefyd ganed merch fach i John a Nia Bowen, Esther Meleri. Wyres fach i Millicent Bowen, Llwynbedw. Llongyfarchiadau iddyn nhw hefyd.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau mawr i Heulwen O'Callaghan ar ennill gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2022. Mae Heulwen yn gweithio gyda Chyngor Sir Gâr a hi oedd yr unig enwebiad o Gyngor Sir Gâr i gyrraedd y rhestr fer. Aeth ymlaen i ennill y wobr am ei gwaith arbennig yn hybu'r Gymraeg yn ei gwaith gyda ieuenctid. Gwobr arbennig iawn.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin, Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

## Bethlehem Newydd

Cydymdeimlwn ag Ann, Eleri, Janet, Eiryth a Gwyndaf hefyd â Delyth Evans ar farwolaeth eu hewythr, sef Gilmour Thomas, Pantycingle, Talog gynt.

....hefyd, â Les Evans ar farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith, Geraint Griffiths o Gaerfyrddin.

Roedd grŵp o Eglwys Coreaidd Caerdydd yng ngofal yr oedfa ar Dachwedd 20fed a chafwyd oedfa arbennig yn eu cwmni. Amlygwyd eu doniau cerddorol wrth iddynt ganu a chwarae offerynnau gan ganu yn Saesneg, Corean a Chymraeg. Cafwyd ffilmiau yn dangos y rhan chwaraewyd gan Gymry ym mywyd Corea gan gynnwys hanes y Cymro, Robert Jermaine Thomas, y cenhadwr a gyflwynodd Cristnogaeth i Corea. Pwrpas eu hymweliad, yn ogystal a'u hymweliadau ag eglwysi eraill yng Nghymru, yw i ddiolch i'r Cymry am yr holl a wnaethant dros ddatblygu Cristnogaeth yn Corea.

Oedfa wahanol a fydd yn aros yn y cof. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd lluniaeth a chafwyd cyfle i gael sgyrsiau difyr gydag aelodau'r grŵp.



Y grŵp o'r eglwys yn Corea

Ar brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 10fed, cynhaliwyd "Gŵyl y Gân – Gŵyl y Geni" pan fu'r organydd, Dai Rees, yn chwarae carolau a cherddoriaeth glasurol ar yr organ. Roedd yn brynhawn anffurfiol a braf oedd cael cynulleidfa dda yn gwrando ar y gerddoriaeth ac ymuno yn y carolau. Bu Mair, Ann a Janet yn gweini gwin poeth, te a mins pei a chafwyd prynhawn hyfryd yn mwynhau naws y Nadolig. Cyflwynwyd yr eitemau gan y gweinidog tra roedd Marian a Cynwyl yng ngofal y technoleg. Mae Dai yn organydd dawnus a diolch iddo am rannu ei ddoniau gyda ni y prynhawn hwn.

Dathlwyd Nadolig ym Methlehem Newydd mewn oedfa a gynhaliwyd ar Nos Iau, Rhagfyr 22ain. Roedd yr oedfa yng ngofal yr ieuenctid a fu'n canu, darllen, llefaru a chyflwyno dramodig. Cafwyd oedfa fendithiol yng ngolau cannwyll a diolch i bawb a fu'n trefnu a chymryd rhan.



Dathlu'r Nadolig

## Tŷ Croeso

Mae Tŷ Croeso yn cynorthwyo gyda'r Croeso Cynnes yn y Gât bod dydd Iau o 10.30 tan 4 – paned boeth am ddim a chlonc, gêmau bwrdd a llyfrau ar gael, wifi am ddim a gweithgareddau crefft. Os oes umrhyw un yn medru gwirfoddoli i helpu cysylltwch gyda Annalyn 07783 471377

Trosglwyddwyd £142.06 i'r Lloches yng Nghaerfyrddin cyn y Nadolig.

Y swm terfynol a godwyd at Llyfrau Llafar Cymru yw £1,619.

Cyfranwyd dau lond cist car i'r Banc Bwyd yn Hendygwyn – un o Gibeon ac un o Fethlehem Newydd. Bydd y casgliad at y Banc Bwyd yn parhau yn y ddau gapel - bydd bocs yn y lobi i dderbyn cyfraniad bob Sul.

Mae Tŷ Croeso yn cefnogi Banc Bwndel Babis Plant Dewi drwy gasglu cyfarpar babis a dillad plant 12 – 18 mis oed. Os oes cyfraniad gennych a wnewch chi gysylltu gyda Annalyn 07783 471377 neu eu gadael yn siop Pethau Olyv. Diolch i Pethau Olyv am fod mor barod i'w derbyn.

**Diolch**

Dymuna Eric Hughes, Hafan Dawel, Pwlltrap ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau ac anrhegion a gafodd ar ei benblwydd yn 80 oed ym mis Rhagfyr.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ
APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# EFAILWEN

Ysgol Sul



Ar fore Sul, 18fed Rhagfyr, fe wnaeth plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo berfformio eu fersiwn nhw o 'Scrooge' fel rhan o'u gwasanaeth Nadolig. Y storïwyr oedd Iago, Llew ac Efan, Scrooge oedd Mabli, Bob Crachet oedd Efa a'r plantos ddaeth i ganu wrth ddrws Scrooge ar Noswyl y Nadolig oedd Charlie, Osian Celt, Lewis a Hannah. Fe wnaeth Siôn Corn alw heibio hefyd gyda sached o anrhegion a chafwyd gwledd yn y festri i ddilyn.

Bore hyfryd iawn a phawb wedi mwynhau perfformiad yr Ysgol Sul yn fawr iawn. Yn y llun hefyd y mae Gruff bach, aelod arall yr Ysgol Sul yn y dyfodol mae'n siwr!

Ar Noswyl Nadolig cynhalwyd Plygain yng Nghapel Nebo am 11.30yh, y tro cyntaf ers Nadolig 2019. Bu nifer o aelodau'r capel yn cymryd rhan, yn ddarlleniadau o'r ysgrythur, yn farddoniaeth, darnau rhyddiaith, gweddïau ac emynau a hefyd eitemau cerddorol yn cynnwys unawd swynol dros ben gan Begw. Diolch yn fawr i'r rhai fu'n trefnu'r rhaglen.

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Pleser mawr oedd cael cwmni yr athro a'r hanesydd, Hedd Ladd Lewis o Foncath i gyfarfod mis Tachwedd. Croesawyd ef atom gan Eifion Evans, ein cadeirydd.

Mae diddordeb enfawr gan Hedd mewn hanes ei deulu ac hanes dau o'i hen berthnasau cawsom ar y noson, drwy ffurf cyflwyniad taflunydd ar y sgrin. Y ddau dan sylw oedd Owen Ladd (1888 -1915) a John Emrys Ladd. Roedd Owen yn hen-hen ddatcu i Hedd a John Emrys yn gefnder i Owen.

Er yn wreiddiol o ardal Gogledd Sir Benfro, roedd Owen yn byw yn Winnipeg, Maniotoba, Canada. Roedd ar siwrne yn ôl i Gymru yn 1915 ac yn un o 2000 o deithwyr oedd ar fwrdd yr R.M.S. Lusitania. Ar y 7fed o Fai tua 2.30 y prynhawn ar long ger penrhyn Kinsale, Gorllewin Iwerddon, fe wnaeth un torpido o long tanfor U20 yr Almaen ddryllio'r llong ac o fewn 20 munud roedd wedi suddo gyda cholledion o tua 1200 o fobol yn cynnwys Owen a llawer o blant. Roedd y ffaith bod y llong wedi suddo mor gyflym yn creu amheuaeth am ei chargo, y gred oedd ei bod yn cario ffrwydron ac arfau rhyfel o'r Amerig i Brydain er mwyn helpu achos y rhyfel. Nid oedd y Morlys Prydeinig yn fodlon cyfaddef bod y llong yn cario ffrwydron ac yn yr ymchwiliad cyhoeddus daethant i'r casgliad anghywir bod y llong wedi ei tharo gyda dau neu fwy o dorpido's. Mae na ddamcaniaeth bod y morlys wedi hanner gobeithio y bydde'r llong yn cael ei suddo er mwyn codi gwrychyn yr Amerig hyd fath raddau, fel bo hwy hefyd yn ymuno yn y rhyfel.

Roedd John Emrys Ladd yn aelod o Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru a cafodd ei orfodi i fynd i ymladd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y cyfnod pan oeddent yn bell o'r llinell flaen, roedd rhaid i'r milwyr Cymraeg ei iaith ysgrifennu llythyron i'w teuluoedd yn yr iaith Saesneg. Pan oeddent ar fin gadael y ffosydd i frwydro yn erbyn y gelyn, roeddent yn cael ysgrifennu'n Gymraeg. Collodd John Emrys ei fywyd ym mrwydr Arras, Gogledd Ffrainc ar y 15fed o Fehefin 1917. Y ddau gefnder wedi ei lladd o achos y Rhyfel Byd Cyntaf.

Er mor drist oedd yr hanes, roedd hi'n ddiddorol i glywed am y ddau gefnder. Diolchodd Eifion i Hedd am y cyflwyniad. Darparwyd cawl ar ein cyfer gan Robert a diolch iddo yntau hefyd am hynny ac am gael defnydd y caffi.

# LLANGYNIN

Noson Bingo yn y Bryn

Nos Iau, Tachwedd 17eg, cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Capel y Bryn. Bu'r noson yn llwyddiannus dros ben a'r neuadd yn llawn, ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o gyfeillion o bentrefi cyfagos wedi dod i gefnogi, yn ogystal â thrigolion Llangynin a'r plwyf.

Robert Morgan o San Clêr oedd yn galw'r rhifau a diolch iddo fe ac i Angela Rees am eu cymorth. Talebau o siop gig Deri Page yn San Clêr a siop gig London House yn yr Hendygwyn oedd y gwobrau am ennill ar y Bingo. Cynhaliwyd raffl ar y noson a diolch yn fawr i'r gwŷr busnes lleol a'r cyfeillion caredig a gyfrannodd wobrau hael iawn tuag at y raffl ar y noson, sef Carl Britton (CJ Waste), Haydn Lloyd (Allpumps), Gareth a Meredith Morris (Aquafix ), Jess Jordan Moffatt (Blodau Gardd Delyn), Kevin a Sarah Roberts, Trudy Page a Sylvia Phillips.

Bydd elw'r noson, tua £320, yn mynd tuag at gynnal a chadw'r neuadd fel man cyfarfod ar gyfer y gymuned. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Caroline, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd.

Gweithdy Creu Torch Nadolig

Trefnwyd gweithdy creu torch Nadolig yn y Neuadd ar ddydd Sadwrn 26ain Tachwedd. Cynhaliwyd y gweithdy gan Jessica Jordan Moffatt, Blaenpant, (Gardd Delyn Flowers) a fu'n rhoi arweiniad i grŵp bychan o ferched

ar sut i greu eu torch Nadolig eu hunain. Pa ffordd well o dreulio prynhawn dydd Sadwrn gwlyb nag wrth ddysgu crefft newydd a chreu torchau anhygoel a oedd yn werth eu gweld, a chael paned a chacen a chlonc ar yr un pryd!



### Capel y Bryn

Ym mis Tachwedd trefnwyd bod aelodau a chyfeillion Capel Bedyddwyr y Bryn, Llangynin, yn cyfarfod yn Hen Ysgol y Bord yn Sanclêr. Wedi llwyddiant y cyfarfod cyntaf nôl ers y pandemig, sef y Cwrdd Diolchgarwch ym mis Hydref, y mis hwn penderfynwyd estyn allan i'r gymuned leol a gwahodd ffrindiau a chyfeillion i ymuno â'r aelodau dros bryd o fwyd. Ar Dachwedd 20fed daeth 18 o bobl ynghyd i fwynhau cinio blasus wedi'i baratoi gan Sue a Philip Hughes a'u staff yn yr Hen Ysgol. Diolchodd y gweinidog, y Parch. Huw George, am y croeso ac am y wledd o ginio a gafwyd ac am y cyfle i gymdeithasu â'n gilydd unwaith eto.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Bryn am 3.30 brynhawn ddydd Sul, Rhagfyr 18fed, pan gafwyd 'sesiwn meic agored' a phrynhawn o ganu carolau dan ofal y Parchedig Huw George. Braf oedd cael cwmni nifer o gyfeillion yn y cwrdd...diolch i bawb wnaeth gefnogi... ac roedd pob un wedi mwynhau sgwrsio dros baned a chacen wedi'r oedfa.

### Cartref newydd

Mae Gwennie Rees, Cheerio wedi symud i fyw i Gartref Gofal Maes Llewelyn yng Nghastell Newydd Emlyn. Pob dymuniad da i chi Gwennie!

### Gwellhad buan

Mae nifer o bobl wedi bod yn anhwylus dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a rhai yn anffodus wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Da gweld bod Paul Lewis, Min-yr-Awel, adref ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli. Dymuniadau gorau iddo wrth iddo barhau i dderbyn triniaeth a gofal pellach yn Ysbyty Glangwili.
Cofiwn am Myrddin Parry, Erw Lon, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar ac yn anffodus wedi gorfod treulio sawl wythnos yn yr ysbyty. Dymunwn gwell iechyd iddo yn y dyfodol ac yntau ar fin symud yn ôl i Gartref Gofal Dôl-y-Felin yn Sanclêr.
Mae Mathew Little, Lleifior, hefyd wedi treulio tipyn o amser yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd yn gwella ac yn cael dod adref yn fuan iawn.
Dymunwn wellhad buan i Rosemarie Davies, Brynhyfryd, sydd wedi cael triniaeth ar ôl cwympo a niweidio ei phen-glin.

### Cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth John Lewis, Maes Mebyd. Bu farw John yn ysbyty Glangwili ar Dachwedd 30ain, ar ôl brwydro salwch creulon am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn yn ddwys â Paul, ei fab, a Wendy a'r teulu i gyd yn eu colled. Colled arall i'r teulu fu marwolaeth ewythr i Wendy yn ddiweddar hefyd, sef Gerald Jenkins o Gaerfyrddin.
Cydymdeimlwn â Neil a Mary Edwards, Pleasant View, ar farwolaeth perthynas, sef Lloyd Evans o San Clêr.
Cofiwn hefyd am Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu sydd wedi colli perthynas, sef Merle Jenkins o San Clêr.
Cydymdeimlwn hefyd â Les Evans, Blaen-y-coed, a'r teulu ar farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith, sef Geraint Griffiths o Gaerfyrddin.

## LOGIN

### Calfaria
### Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Tom Evans, Mr Lyndon Lloyd a Mr Tudur Dylan Jones am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Chwefror:
5ed - Annalyn Davies Cymun 2 o'r gloch
26ain - Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca yng nghwmni Mererid Hopwood am 10 o'r gloch
Mawrth:
5ed - Annalyn Davies - Cymun am 10.30 o'r gloch
19eg - Tom Evans - Cwrdd am 10.30 o'r gloch

### Cwrdd Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghalfaria ar fore Sul, Rhagfyr 18fed, gydag aelodau y capel yn cymryd rhan. Teimlwyd gwefr yr ŵyl wrth ganu carolau, gyda Mefin Lewis, Owen Jenner, Delyth Morris a Sian Wills yn eu cyhoeddi. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Faith Wright, Nigel Vaughan, Beti James, Les Owens a Buddug Davies, a fe'n tywyswyd mewn gweddïau gan Ceirios Jenner, Eurfyl Lewis a Faith Wright. Adroddodd Betty Evans, Ceirios Jenner, Nigel Vaughan a Sian Davies gerddi gan feirdd lleol. Canodd Beti a Sian gwpwl o ganeuon Nadoligaidd, yn ogystal â Ceirios yn ymuno â nhw i ganu cân arall. Hefyd perfformiodd nifer o aelodau'r capel gwpwl o ganeuon.

Diolchodd Eurfyl i bawb am gymryd rhan, i Ceirios am drefnu'r gwasanaeth a dymunodd Nadolig dedwydd i bawb, gan gofio am yr aelodau a oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf a diffuant gyda Rees, a Russell Thomas a Bethan Allen ar farwolaeth eu chwaer sef Delyth Thomas, (Llysmyrddin gynt).
Hefyd gyda Beryl Thomas a Peter Llewellyn ar farwolaeth Rhoswen Llewellyn, eu chwaer yng nghyfraith.

### Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Sian Davies, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.

### Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Bethan Allen fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ionawr 5ed.

Diolch
Dymuna Gerwyn Penralltfach ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 80 oed.

## Cofio Kevin



Taenwyd ton o dristwch, siom ac anghredinieth dros ardal eang yn ddiweddar pan glywsom am farwoleth sydyn a disymwth Kevin Davies (Kevin Rhydymerydd) mas yn Qatar.

Bu Kevin yn mynychu Ysgol Sul Calfaria Login yn ystod ei blentyndod a bu'n aelod ffyddlon gyda ni yno, nes trosglwyddo ei aelodeth i Gapel Blaenffos deuddeg mlynedd nôl. Ie, un o fois Login wedd e, a ffrind bore oes. Cafodd ei ethol yn ddeiacon, ac yn drysorydd ar Gapel Blaenffos, yn ddiweddarach. Nid ar chware bach nath hyn ddigwydd - wedd e'n sicr yn uchel ei barch ymhlith ei gyd aelode ym Mlaenffos.

Ar lefel bersonol, cefais y pleser o gydweitho'n agos gyda Kevin am flynyddoedd lawer. Bu'r ddau ohonom yn rhannu swyddfa yn Ysgol y Preseli - minne yn Swyddog Datblygu gyda'r Urdd yn Shir Benfro a Kevin yn Swyddog Addysg Gymunedol y Preseli.

Fe wnaethom drefnu sawl taith gyfnewid i Gatalonia gyda'n gilydd ar ran yr Urdd, wedd Kevin yn arweinydd brwd ar Aelwyd Crymych yn ystod y cyfnod yma. Fe wnaethom rannu nifer o brofiade difyr yng nghwmni'n gilydd ac fe wnaf drysori rhain yn fowr. Wedd wastod hwyl i'w gal yn ei gwmni, ond wedd swmp a sylwedd i'w gymeriad yn ogystal.

Diolch am ei gyfraniad arbennig, clodwiw, gwerthfawr ac unigryw i'r Urdd ac i Fro'r Preseli, yn sicr mae na ddegau ar ddegau o bobol ifanc yr ardal yn ddyledus iawn iddo am ei arweiniad, ei annogaeth a'r dylanwad mowr cafodd e ar eu bywyde. Bu'n ysbrydolieth i lawer, heb unrhyw amheuaeth.

Mae'n wir i ddweud nad ydym yn gwerthfawrogi cyfraniad rhywun nes ei bod wedi'n gadel - nid yw Kevin yn eithriad gwaetha'r modd. Wedd e'n gefnogwr brwd o holl weithgaredde'r ardal, yn aelod selog a gwerthfawr o Gôr Crymych a'r Cylch ac yn Gymro i'r carn. Er ei fod wedi ymddeol, wedd e'n dal i gynorthwyo i drefnu Gŵyl Bro'r Preseli - ac yn gwneud hynny gyda'i frwdfrydedd heintus arferol. Bu ei gyfraniad i gwmnni recordio Fflach a Cwmni Theatr Bro'r Preseli yn un sylweddol tu hwnt hefyd.

Mae'n gadel bwlch enfawr ar ei ôl, nid yn unig ym Mro'r Preseli a Shir Benfro, ond dros ardal eang, ond mae'r golled fwyaf ymhlith ei deulu, oedd yn golygu popeth iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a diffuant i Catrin, Einir, Gerallt, Llywelyn a Sara, ynghyd â'i frodyr a'i chwaer a'r teulu i gyd. Y wen na phyla amser, y fflam na ddiffydd byth. Diolch am gael cyd gerdded ar ran o lwybr bywyd yn ei gwmni, ma'r byd yn le dipyn tlotach hebddo. Cysga'n dawel Kevin, coffa hyfryd amdanat. *Eurfyl*

## Priodas Dda



Llongyfarchiade mawr i Carwyn Rees, Coynant, Login a Lisa Mai Jones, Blaencwmerwydd, Horeb, Llandysul ar eu priodas diweddar.




Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook




**RUSSELL THOMAS**
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR


Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

## Penblwydd Hapus yn 60 oed



Penblwydd hapus iawn i Wyn Davies, Golygfa'r-Cwm, Login a ddathlodd ei benblwydd yn 60 oed ar y 17eg o Ragfyr. Cariad mawr, Meinir, Nia, Owain, Megan, Gwen, Lleucu, Mererid, Michael a'r teulu i gyd.

## Cylch Feithrin Ffynnonwen



**Cegin newydd**. Diolch yn fawr i Darren a Dorian Phillips, Phil Murray, Martin Owen ac Evan Davies a phawb sydd wedi rhoi o'i hamser i osod y gegin newydd yn y ganolfan.



Plant yn mwynhau cino Nadolig, diolch i Miss Cath am baratoi'r cinio!



Diolch i bawb a wnaeth gefnogi sioe Nadolig Cylch Ffynnonwen a Llandysilio ar y cyd. Bore hyfryd yng nghapel Nebo. Diolch i Jill ac i Sion Corn!

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

**Gwasanaeth Canu Carolau**



Blwyddyn Newydd Dda. Diolch i bawb a gefnogodd y gwasanaeth canu carolau. Cafwyd oedfa arbennig dan ofal y Parchedig Huw George a Ceirios Jenner a mwynhawyd gwin poeth a mins peis ar y festri. Diolch i bob un a gyfrannodd at lwyddiant y noson mewn unrhyw fodd. Daeth casgliad arbennig o fwyd i fanc bwyd Hendygwyn ar daf. Aethom â'r cynnyrch i'r ganolfan ar ddydd Mercher, 28ain Rhagfyr. Diolch am eich haelioni a diolch i'r rhai wnaeth fynd â nwyddau cyn y Nadolig.

Cynhelir ein cinio ar Nos Wener 3ydd Chwefror am 7.30 yng Nghaffi Beca. Enwau i fewn erbyn dydd Mercher, 25ain Ionawr fan pellaf. Gallwch plîs rannu y wybodaeth gyda'ch cymdogion. Croeso iddynt ddod.
Byddwn yn cynnal raffl ar y noson. Croeso i chi gyfrannu gwobr. Edrychwn ymlaen i'ch gweld. Cewch ddyddiad y cyfarfod nesaf noson y ginio.

DH DAVID HARRIES & Co DH

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






Bydd y Ganolfan yn dathlu ei phenblwydd yn hanner cant eleni. Os oes syniadau gyda chi sut gallwn ddathlu rhowch wybod.

Bydd y dosbarth gwnïo yn ail ddechrau ar fore Sadwrn, 4ydd Chwefror am 9.30yb. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Meinir Eynon.

# BANCYFELIN



Bu aelodau capeli Cana a Bancyfelin yn brysur ym mis Tachwedd yn casglu anrhegion Nadolig i gefnogi Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Bu'r ymateb yn rhyfeddol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Capel Bancyfelin



Cynhaliwyd oedfa dan olau cannwyll yng Nghapel Bancyfelin nos Sul, 8fed Rhagfyr. Oherwydd y tywydd garw, nid oedd modd cynnal oedfa allan yn yr awyr agored eleni, ond daeth tyrfa dda ynghyd i'r capel i ymuno mewn oedfa dan ofal y bobol ifanc a theuluoedd yr eglwys. Daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol cyn i bawb fwynhau diod cynnes a mins peis, a'r plant yn mwynhau eu parti Nadolig!



## Capel Cana



Cynhaliwyd oedfa Nadolig hyfryd yng Nghana bnawn Sul, 11eg o Rhagfyr. Gwnaeth y plant a'r bobol ifanc eu gwaith yn ardderchog, a daeth Sion Corn ar ei ymweliad blynyddol. I ddiweddu'r prynhawn, mwynhawyd parti Nadolig llawn danteithion blasus. Diwrnod da yn wir.



Hyfrydwch i aelodau Cana oedd croesawu aelodau'r Ofalaeth atynt ar fore Sul, 18fed Rhagfyr ar gyfer Oedfa Nadolig Undebol yr Ofalaeth. Mwynhawyd paned a mins peis cyn mynd adref!









# Cyflwyno siec o £3410 i Prostad Cymru

Mae Eifion Howells yn ddyn adnabyddus o fewn Sir Gaerfyrddin, yn byw ar fferm Maescowin lle roedd e’n cadw buches odro o’r safon uchaf cyn iddo ymddeol. Yn ddiweddar gwnaeth Eifion ddathlu penblwydd nodweddiadol yn 80 oed a phenderfynodd, yn hytrach na derbyn anrhegion byddai’n well ganddo bod y teulu a’i ffrindiau oll yn gwneud cyfraniad tuag at yr elusen Prostate Cymru ac yn sgil hynny, fe godwyd cyfanswm arbennig o £3410.

Wrth gyflwyno’r siec i’r elusen, dywedodd Eifion, er nad oedd ef ei hun wedi cael ei effethio gan broblemau’r prostad roedd e’n adnabod nifer helaeth oedd wedi dioddef gyda’r salwch a phroblemau a bod cyfrannu i elusen Prostate Cymru yn galluogi mwy o ddynion i elwa o waith yr elusen.

Gwnaeth Cadeirydd Pwyllgor Ffrindiau Prostate Cymru o fewn Sir Gâr, Deryc Rees ddweud wrth ddiolch yn fawr i Eifion a’i deulu am eu haelioni “Wrth rhoi’r arian a dderbyniwyd ar achlysur ei benblwydd mae Eifion yn engraifft wych o rywun sydd am helpu eraill i ymdopi gyda chlefydau y prostad a bydd Prostate Cymru yn defnyddio’r arian i godi ymwybyddiaeth”.



Eifion Howells yn cyflwyno’r siec i gynrychiolwyr o’r elusen

# SAN CLER

Brawychwyd yr ardal pan glywyd am farwolaeth trasig Lloyd Evans, Llanfryn yn 66 oed. Magwyd Lloyd ar fferm Llanfryn lle bu’n ffermio yno ac yn Y Lan, Meidrim drwy gydol ei oes. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel y Trinity. Cydymdeimlwn â’i wraig Elizabeth, y plant, James, a’i wraig Sian, a Rachel, a’i wyrion Huw, Sara ac Elin. Hefyd â’i chwaer Anne, a’r teulu.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Merle Jenkins, yng Nghartref Dolyfelin, yn 84 oed wedi sawl blwyddyn o anhwylder. Fe fuodd Merle, a’i diweddar ŵr, Bertie, yn weithgar iawn yn y gymuned a bu hi’n faeres am ddau dymor pan oedd Bertie yn faer a roedd, yn ogystal yn brysur gyda’r Lleng Brydeinig, yn un o’r gwerthwyr pabi yn San Cler. Cofir Merle am ei gofal dros yr henoed yn San Cler, bu’n warden dros fyngalos yr henoed ym Maesybryn, Lon Hafren, Lon Las, Lon Fair a Stryd y Bont. Roedd yn gwirfoddoli gyda Country Cars ac yn flaenllaw gyda Chymdeithas yr Henoed yn San Cler. Bu hefyd yn weithgar gyda Clwb QT a oedd yn helpu y rhai sy’n dioddef o dementia. Syndod mawr iddi, yn 2018, oedd cael ymweliad gan Alwyn Humphreys a gyflwynodd wobr Halen y Ddaear iddi. Cefnogai’r oedfaon ym mhob enwad ond roedd yn aelod yn Seion. Roedd yn ddarllenwr brwd o’r Cardi Bach. Cydymdeimlwn â’i phlant Kevin a’i wraig Janette, a Sandra a’i gŵr Jonathan, hefyd yr wyrion Carys, Steffan ac Alys a’r gor-wyrion Leia, Iori a Deina. Coffa da amdani.

Mae Glyn a Christine Anthony wedi symud i fyw yn Heol Dinbych y Pysgod. Pob dymuniad da yn eu cartref newydd.

## Cyngor Tref Sanclêr

Roedd cynnwrf mawr i’w deimlo yn Sanclêr ar ddechrau mis Rhagfyr wrth i bawb ddisgwyl am ymweliad Siôn Corn a hynny ar ôl tair blynedd o oedi oherwyd Cofid. Ond bu’n werth aros amdano ac ni chafodd neb eu siomi.

Cynhaliwyd y noson yn y Gât. Ymddangosodd Siôn Corn ar ei sled gan alw yn gyntaf yng Nghartref Dolyfelin. Cafodd groeso mawr gan y trigolion, hwythau hefyd wedi gweld ei eisiau am dair blynedd. Ymlaen ar ei sled wedyn drwy Heol y Pentref nes cyrraedd Y Gât lle’r oedd cannoedd o rieni a phlant yn aros amdano.

Roedd cyfle i gael ffoto o’r plant yn Y Gât cyn gweld

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

Siôn Corn a derbyn anrheg oddi wrtho. Roedd mins peis ar gael hefyd wedi'u rhoi gan siop y Spar yn ogystal â gwin cynnes a sgwash i'r plant. Diolch i'r gwirfoddolwyr ar ran Cangen San Clêr o Ferched y Wawr, Tŷ Croeso a Sefydliad y Merched am helpu i weini.

Ariannwyd y cyfan gan Gyngor Tref Sanclêr ac fe drefnwyd y noson ar y cyd â Chymdeithas Cymunedol Sanclêr. Diolch i'r siopau a arhosodd ar agor i ychwanegu at ysbryd Nadoligaidd y noson a diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr a fu'n gymorth mawr ac a gyfrannodd at lwyddiant y noson. A diolch i bawb am eu presenoldeb.




**Croeso Cynnes yn Y Gât, Heol y Pentre, Sanclêr**
O ganlyniad i gostau byw cynyddol mae nifer fawr o Stafelloedd Cynnes wedi eu sefydlu gyda'r bwriad o gynnig lle cynnes i bobl ddod ynghyd a chael diod dwym, cyfle i gael clonc, chwarae gemau bwrdd ac ati.

Penderfynodd Cyngor Tref Sanclêr ddarparu lle o'r fath yn y Gât. Bu'r Cyngor yn ffodus i dderbyn grant gan Gyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gwneud hyn a gelwir y prosiect yn Croeso Cynnes. Cynnigir diodydd twym, tost neu gacen am ddim i bawb. Ceir cyfle i gael clonc a pha beth gwell ar ôl cyfnod mor hir o fethu cymdeithasu o ganlyniad i Cofid. Mae gemau bwrdd ar gael, llyfrau a wi-fi am ddim ynghyd â chyfle i wneud gweithgareddau crefft. Trefnwyd gweithgaredd gwneud addurniadau bwrdd Nadolig a chanu Carolau cyn y Nadolig. Diolch i Jane Rees, Cyfarwyddwr Cerdd Kor-uss am gynorthwyo.

Diolch i'r holl wirfoddolwyr sydd yn barod i helpu er mwyn gweithredu'r cynllun. Mae ar agor bob dydd Iau o 10.30 tan 3.30. Galwch mewn. Mae yna groeso twymgalon i bawb. Os am fwy o wybodaeth- cysylltwch gyda'r Cyng. Annalyn Davies 07783 471377.




## Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Martha Evans (Metta) o San Cler a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar 21ain o Ragfyr. Fe'i gwelir yn y llun gyda'i gor-wyresau, Gwenllian, 9 oed, Lawney, 4 oed, a'i gor-wyr Auden, 1 mlwydd a hanner.

Cynhaliwyd nifer o bartion yng Ngwesty Cliff Gwbert, Plasdy Crug Glas, Tŷ Ddewi ac yng nghatref Metta yng Nghlos y Drindod, San Cler ac yn lle anrhegion, derbyniwyd £176 o roddion ar gyfer Ymchwil Cancr Cymru.

Hoffai Metta ddiolch i bawb am y dymuniadau, cardiau a rhoddion.

**GWASANAETH CEIR HENDYGWYN**
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN CRYMYCH**
Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFÔN: 01239 831230

Byd y Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

# PENYBONT

## Capel Penybont



Cynhaliwyd gwasanaeth Undebol dechrau'r flwyddyn yng nghapel Penybont. Diolch i bawb a drefnodd ac a gymerodd ran a diolch hefyd i bawb am eu presenoldeb.

**C.Ff.I.**

Cafodd y clwb ddiwrnod gwych yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Abergwaun.
Cipiodd y Côr Cymysg, y Parti Deusain a'r Triawd Doniol, sef Mared Evans, Carwyn Jones a Tomos Jameson y wobr gyntaf. Daeth Cyflwyniad Dramatig Tomos Morgans ac Olwen Roberts yn ail a dyfarnwyd y drydedd wobr am yr Unawd Offerynnol i Daniel O'Callaghan, a'r Ddeuawd i Hannah a Celyn Richards.




Côr y Clwb

Llongyfarchiadau i'r aelodau a fu'n cystadlu yn y Siarad Cyhoeddus Saesneg.

Daeth y Tîm Darllen yn gyntaf - Celyn, Luisa, a Tomos.

Daeth Celyn a Tomos yn ail yn y tîm swyddfa yn yr Adran Iau, gyda Celyn yn ennill yr unigolyn gorau. A daeth y Tîm Hŷn yn ail, sef Hannah, Daniel, Fiona, a Teleri.

Trefnodd y clwb daith dractorau hefyd cyn y Nadolig gyda'r elw o'r noson yn cael ei gyfrannu i'r gronfa leol ar gyfer Eisteddod Yr Urdd Sir Gaerfyrddin. A bu'r aelodau yn canu carolau gan gyfrannu at Fanc Bwyd Caerfyrddin.

# NEWYDDION BLAENCONIN

## LAST CHANCE SALOON

Yn ystod i agos i ddwy flynedd bellach, mae cyfyngiadau'r pandemig wedi amharu ar fywyd a gwaith yr Eglwys a'r gymuned ehangach. Cawsom ein gorfodi i gloi'r drysau ac aros ar wahân am gyfnodau hir ac mae hynny wedi effeithio ar ein cynulleidfaoedd, ein corau a'n cymdeithasau. Yn araf ac yn ofalus, mae'r byd yn dechrau dysgu byw gyda'r feirws a ninnau'n dechrau creu'r 'normal' newydd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae'r gymdeithas Gristnogol wedi llwyddo i barhau i dystio ac, ers sawl mis bellach, wedi llwyddo i ail-agor drysau mawl.

Gwahoddwn aelodau a chyfeillion yr Eglwys i ddod ynghyd fel un teulu o gredinwyr i dorri tir newydd yn ystod 2023.

Yn ystod wythnosau olaf 2022, cyhoeddwyd canlyniadau CYFRIFIAD 2021 ac mae'r ystadegau parthed y Ffydd Gristnogol yn frawychus o siomedig ac yn her i ddyfodol y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru. Mae rhai wedi ceisio cyfiawnhau'r ffigyrau ond i'r doeth, mae'n alwad i weithredu yn enw'r Arglwydd.

Yn yr hen ffilmiau Westerns, byddai cymeriad yn sôn am y 'Last Chance Saloon' ... a dyma'r disgrifiad orau o sefyllfa Cristnogaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r ffeithiau yn noeth ac yn heriol ... gallwn dreulio'r misoedd nesaf yn cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd i 'drafod' y sefyllfa neu ymateb yn gadarnhaol gan uno yn enw'r Arglwydd i ddiogelu'r dystiolaeth Gristnogol yn ein bro. Nid mater o 'gadw Capeli ar agor' yw'r her bellach ond, yn hytrach, diogelu'r defnydd o Efengyl Iesu Grist fel sail i fywyd ein cymunedau a'n cymdeithasau.

Yr Eglwys a'r gymuned gristnogol sydd wedi agor ysgolion ac ysbytai ... yr Eglwys a'r

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: **(01994) 231599**

gymuned gristnogol sydd wedi sefydlu cymdeithasau a chorau ac yn awr, mae galw unwaith eto ar yr un Eglwys a'r un gymuned i ymateb i her yr oes ac mae llwyddiant ein hymdrechion yn gorffwys gyda NI ... pob FI sydd yn arddel enw Iesu.

Mae'n her i bob Eglwys unigol ac yn her i'r Eglwys fawr gymunedol a chenedlaethol. Mae'r ateb, i raddau, yn ein dwylo NI ... gadewch inni ymateb fel un Corff yn enw Crist.

## PROVENANCE

Yn dilyn apêl mis Rhagfyr am enwau'r cymeriadau yn llun Cadeirio Eisteddfod Clunderwen ym 1954, diolch i Hazel Smith am ymateb mor gyflym. Yn ôl Hazel, gan ddechrau ar y chwith, dyma'r enwau ...

Ernie Llwyd Williams, Tomi Evans (yn y Gadair)
T L Jones, Llangolman, Idwal Lloyd,
Vince Rhydwen (yn canu Cân y Cadeirio)
Eirianwen Thomas (Jones gynt yn canu'r delyn)
Dr Thomas,Trefloyne, Mr Howells, Dryslwyn
Johnny James, Central



## MYFYRDODAU'R ADFENT 2022

Diolch i bawb am eu hymateb i fyfyrdodau'r Adfent, 'Pwy yw Pwy wrth y Preseb ?' Gobeithio eich bod wedi cael bendith addysg a mwynhad yn dilyn hanes Sachareias, Joseff, Mair a Herod.

## CYMDEITHAS, CACEN a CHLONC

Yn dilyn misoedd lawer o gyfyngiadau, braf yw cael cyhoeddi ein bod yn bwriadu cynnal cyfres newydd o 'Cymdeithas, Cacen a Chlonc' yn ystod 2023.

Diben a phwrpas y cyfarfodydd hyn yw creu cyfle i Gristnogion ddod ynghyd i glywed hanesion bobol y Ffydd mewn awyrgylch anffurfiol. Cyfle i 'gymdeithasu' ... cyfle i fwynhau 'cacen' a chyfle ac amser am glonc'.




Dau Arwr

Yn y gorffennol rydym wedi cael bendith yng nghwmni Delme Thomas, Wyn Gruffydd, Mair Garnon James, Aled Scourfield, Eurfyl Lewis, Cerwyn Davies, Brian Llewellyn, Hywel Davies, Dr Bethan Lloyd, Yvonne Evans, Martin Roberts, y Parch Guto Llywelyn a mwy o lawer.

Mae'r gyfres newydd yn dechrau prynhawn Sul, 22ain Ionawr am 3 o'r gloch yng nghwmni'r Parchedig Geoffrey Eynon, Casblaidd a'r thema yw 'Dilyn y Graen'.

## Cofio dy Wyneb

Rhoddodd Emyr Huws Jones, 'Ems', nifer o drysorau i'r byd gyda'i ganeuon a'i waith gyda'r grŵp, 'Mynediad am Ddim', ac un o'r goreuon oedd 'Cofio dy wyneb'. Yn dilyn llwyddiant y gân ar record Mynediad am Ddim cafwyd fersiwn hudolus a swynol gan Bryn Fôn.



Dyma gyfle inni edrych eto ar wyneb RATIFA, y ferch o Ntwetwe yn Uganda. Fel Eglwys, rydym wedi bod yn cynnig nawdd i nifer o blant yn ystod y blynyddoedd ac, ar hyn o bryd, Ratifa sydd yn derbyn ein cariad a'n ceiniogau. Byddwn yn ail-gydio yn y boreau coffi ar yr ail Sul o'r mis am 10 o'r gloch ar 12fed Chwefror.

Mae Ratifa wedi bod yn derbyn nawdd ar hyd cyfnod y Covid a dyma lun ohoni adeg Nadolig 2022.

## TREFN OEDFAON 2023

Mae trefn oedfaon 2023 bellach ar gael ar dudalen gefn 'Gwlithyn Bro' mis Ionawr. Gwahoddwn aelodau a chyfeillion yr Eglwys i ddod ynghyd i addoli.

## LLUDW DDOE

(Hen Galan yng Nghwm Gwaun)

Mae fflamau'r tân yn marw,
A'r lludw'n dwym o hyd;
Mae'r gwres yn dechrau oeri
A'r clecian nawr yn fud.
Mae fory'n Flwyddyn Newydd
Ac felly, rhaid im droi
I glirio'r hyn sy'n weddill -
Gwasgaru lludw ddoe.

Rhaid clau'r lle tân cyn gorffwys,
Cans fory sydd wrth law
A Blwyddyn Newydd arall
Yn fuan, fuan ddaw;
Glanhau y ford a'r gwely
Cyn meddwl mynd i'r sioe,
Cans ni fydd lle yfory
I'r hyn a losgwyd ddoe.

Caiff ludw ddoe ei daflu
Ar lwybrau'r dyddiau gynt,
Mae fory gwell yn dyfod –
Mae'r ysbryd yn y gwynt;
Gwnawn le i'r bywyd newydd
Cans gobaith newydd fydd,
Daw cyfle bore fory
I gynnau fflam y Ffydd.

# LLANDYSILIO

### Cydymdeimlo

Trist iawn oedd  clywed am farwolaeth John Harries, Park House, Llandysilio. Bu farw'n dawel yng Nghartref Park House, Dinbych y Pysgod, ar 29ain o Ragfyr. Gŵr cariadus Lorna, tad Mandy, James a'r diweddar Jonathan, tad-yng-nghyfraith Sharon, a tadcu a hen-ddatcu. Brawd Pam a Carol. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

### Dyweddio



Llongyfarchiadau mawr i Catrin Jones a Tom Hodge, Nyth Ni, Llandyssilio ar ddyweddio ar fore ddydd Nadolig.

## Priodas Dda



Llongyfarchiadau a phob dymuniadau da ac hapusrwydd yn y dyfodol i Jess a Dyfed Cynan, a briodwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Jess yn ferch i Julian a Sonia Robinson, Parc y Bryn Llandysilio.

### Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Mae nawr yn amser adnewyddu aelodaeth y Clwb 100. Os hoffech ymuno, cysylltwch â Haulwen Pridmore ar 07788 816980. Tâl yw £10 y flwyddyn.
Dewch i ymuno â ni ar bwyllgor Neuadd Llandysilio. Byddwn yn cwrdd nesaf ar 13eg o Chwefror, yn y Neuadd am 7.30. Mae na groeso mawr, a byddai'n braf i'ch gweld yno.

**CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO**

Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY
Ar Agor:  pob bore
9.00 yb - 12.00
Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392
neu: cmllandysilio@outlook.com
*Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716*

**Cylch Ti a Fi**
**Llandysilio**
I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr
Pob prynhawn Mercher
12.00 - 1.30yp
£2.50
Neuadd Llandysilio

### RHYBUDD!!



Mae'r Frigad Dân wedi rhoi rhybudd i yrrwyr beidio mynd mewn i Rhyd afonydd ('Fords') ar ôl i fwy nag un car fynd i drafferth yn 'Vicars Mill' yn ddiweddar.

## Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched ym mis Tachwedd yn Neuadd Clunderwen.

Gwnaeth Janet P, roi torch pabi ar ran y sefydliad yn oedfa'r cofio, yn Llandysilio ar y 13eg o Dachwedd.



Ar ddechrau mis Rhagfyr, roedd cystadleuaeth gyda Federasiwn Sefydliad y Merched i wisgo fel priodferch adeg y rhyfel. Fe wnaeth Denise Davies, gyda help rhai o'r aelodau ddod yn ail. Da iawn wir.

Hefyd, cymerodd dwy o'n aelodau, Annie a Helen, ran yng nghystadleuaeth gwneud clawr clustog a daeth Annie Hammersley yn 2il yng nghystadleuaeth ysgrifennu.



Yn ein cyfarfod misol ar y 5ed o Ragfyr bu'r gwragedd yn brysur iawn yn gwneud torch Nadolig, o dan arweiniad Nia Davies. Diolch iddi.

Cynhaliwyd ein cinio Nadolig yng Ngwesty Nantyffin ar y 12fed o Ragfyr. Bwyd blasus, cwmni da - beth sy'n well. Diolch yn fawr i staff Nantyffin.

# CLUNDERWEN

Gyda thristwch mawr ddaeth y newyddion fod Nia James, Tregarret wedi ein gadael.
Roedd hi wedi brwydro yn hir ac yn ddewr yn erbyn ei hafiechyd blin dros bum mlynedd.
Yn wraig annwyl a ffrind gore i Daniel, mam gariadus Lili a Cadi, merch ffyddlon Alun ac Eirwen Thomas, Fferm Nantcwmgwili, chwaer hoffus Alwyn a Steffan, merch-yng-nghyfraith parchus Stephen a Joyce Gelli olau, chwaer-yng-nghyfraith, anti a ffrind.

Bu'r angladd yn Eglwys Llanllawddog, ger y lle magwyd Nia, a dyma lle y priodwyd hi hefyd. Roedd niferoedd lawer wedi dod ynghyd i dalu'r gymwynas olaf, hyn yn dyst o'i phoblogrwydd a'i chyfeillgarwch. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Ficer Gaynor Jones-Higgs gyda'r Parch Huw George yn rhoi'r deyrnged, a Chor 'Bella Vôce'.
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Daniel a'r merched, Lili a Cadi a'r teulu oll.

# CWMFELIN MYNACH

## Ramoth

Bu adeg y Nadolig yn dawel eleni. Ym mis Ionawr cafwyd yr oedfa gymun o dan ofal Y Parchg Huw George.

Chwefror
5ed: Cymun - Mrs Annalyn Davies - 10.30
12fed: Oedfa - Y Parchg Huw George - 2.00
26ain: Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca yng nghwmni Mererid Hopwood am 10 o'r gloch.

Cydymdeimlwn â Roy Llewellyn ar farwolaeth ei briod, Rhoswen, ar ôl salwch hir. Cynhaliwyd yr angladd ar ddiwrnod oer iawn, 13eg Rhagfyr yn Ramoth. Gwasanaethwyd gan y Parchg Tecwyn Ifan (cyn-weinidog) yn cael ei gynorthwyo gan Y Parchgn Aled Gwyn, Euros Jones-Evans, Eirian Wyn Lewis a Carol Court. Yr organydd oedd Euros Rhys Evans (cyn-ddisgybl i Rhoswen yn ysgol Ffynnonwen). Yr archgludwyr oedd ei chyn-ddisgyblion yn Ysgol Sul Ramoth. (Gweler teyrnged yn y rhifyn hwn). Cofiwn am y perthnasau i gyd yn eu hiraeth.

....hefyd, bu farw Mrs E A David, perthynas i Hugh Lewis, Y Ffawydd, Hendygwyn.

....hefyd cydymdeimlwn â Dafydd Evans a'r teulu ar farwolaeth ei dad yng nghyfraith, Eirian Gibbon o Pontiets yn 70 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Nasareth, Pontiets ar Ionawr 5ed; roedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog, Y Parchg Gwyn Elfyn Jones.

**Diolch**
Dymuna Roy Llewellyn a'r teulu, ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod ac ar ôl y brofedigaeth o golli Rhoswen, annwyl wraig Roy. Diolch i Ken a Lynys Davies am drefnu'r angladd gydag urddas a pharch ac yn enwedig i aelodau Capel Ramoth am eu gwaith di-flino i wneud yn siwr fod popeth yn berffaith.

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Tecwyn Ifan am y deyrnged hyfryd i Rhoswen gyda chymorth y Parchedigion Euros Jones Evans, Aled Gwyn, Eirian Wyn Lewis a Carol Court, hefyd i Euros Rhys am ei wasanaeth wrth yr organ.

## Sêr S4C!!

Gwelwyd dau o blant aelodau Ramoth ar y teledu dros yr Ŵyl.



Bu Gwilym, mab Sioned Snelson ar raglen Heno yn sôn am ei brofiad yn trosleisio cartŵn Nadoligaidd o'r enw Miwsiffantod. Dangoswyd y ffilm noswyl Nadolig.



Ymddangosodd Sara, merch Cennydd Jones ar raglen Carol yr Ŵyl ar Ragfyr 23ain. Sara oedd 'Mair' ac yn rhan o gôr ysgol gynradd Penygroes, Llanelli a ddaeth yn y deg uchaf yn y gystadleuaeth.

## Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Delyth Lewis, Trefyw ar ôl cael llawdriniaeth rhai wythnosau yn ôl.


BFF
Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
• Bwyd anifeiliaid
• Ffensio
• Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GT TYRES
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

# LLANBOIDY

## Sefydliad y Merched

Daeth yr aelodau ynghyd ar yr 8fed o Ragfyr o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu'n dymuno'n dda i Brenda Worthing sydd wedi torri ei braich ac wedi treulio peth amser yn ysbyty Llwynhelyg. Ar ôl trafod busnes, bu'r aelodau'n mwynhau bocs yr un yn llawn danteithion sawrus a melys wedi eu paratoi gan y Lolfa Goffi yn Hen dy Gwyn. Bydd y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch pan fydd Denise yn cynorthwyo'r aelodau i wneud blodau allan o gleiniau (beads). Enillydd y torch Nadolig oedd Jayne Evans.

## Chwaeroliaeth



Ar Ragfyr 10fed, cyfarfu'r aelodau yn y Lolfa Goffi yn Hen-dy-Gwyn i fwynhau te prynhawn a chymdeithasu. Croesawodd y llywydd Wenfys Rees bawb gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

## Trinity



Ar ddydd Sul, Rhagfyr 11eg, ymunodd aelodau Eglwys Sant Brynach ag aelodau Trinity mewn oedfa o ganu carolau, gydag aelodau'r ddwy eglwys yn cymeryd rhan. Roedd y gwasanaeth o dan ofal y gweinidog, y Parchedig Guto Llywelyn a'r Parchedig Jeni Parsons.

## Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn â Haulwen Davies, Stag a'r teulu, wedi i Haulwen golli ei brawd oedd yn byw yn Canada.

....hefyd â Roy Llewellyn ar ôl iddo golli ei wraig Rhoswen, un a fu mor weithgar gyda'r Cardi Bach ac yn ein bro.

## Neuadd y Farchnad

Cynhaliwyd Ffair Nadolig y neuadd ar nos Wener, Rhagfyr 9fed. Llywyddwyd y noson gan y Cyng. Dorian Phillips. Croesawodd staff a disgyblion Ysgol Bro Brynach a chafwyd detholiad o garolau Nadolig ganddynt. Agorwyd y ffair yn swyddogol gan John Heseltine, gynt o Spencer House a chafwyd araith bwrpasol ganddo. Diolchodd y cadeirydd i John am ei gyfraniad hael, i Ysgol Bro Brynach ac i bawb am gefnogi'r noson.



Yn y llun gwelir John a Gail Heseltine, Delyth Bebb, Ysgrifenyddes a'r Cyng. Dorian Phillips, Cadeirydd y noson.







**Rhag Hysbys**
Neuadd y Farchnad, Llanboidy
**Cyngerdd gyda**
**Côr Meibion De Cymru**
**Trystan Llŷr Griffiths a Jessica Robinson**
Nos Sadwrn, Hydref 14eg 2023

# RHYDYCEISIAID

Pulpud

Gwasanaethwyd yn ddawnus iawn fel arfer gan Parchedig Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun Sul, Rhagfyr 4ydd a Ionawr 8fed, a diolch iddo. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis yn yr oedfa. 'Roedd yn bleser clywed Cryno Ddisg Dafydd Iwan yn canu 'Yma O Hyd' yn oedfa mis Tachwedd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu ar farwolaeth perthnasau sef Mr John Lewis, Llangynin a Mrs Merle Jenkins, San Clêr.

....hefyd cydymdeimlwn yn ddwys fel aelodau â Mr. Roy Llewellyn ar farwolaeth ei briod Rhoswen.

Dymuniadau gorau i Miss Gwennie Rees, Cherio Villa sydd wedi ymgartrefi yng Nghartref Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn.

# HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae'n flwyddyn newydd a Nadolig arall wedi mynd heibio. Cafwyd Oedfa Nadolig y plant a'r ieuenctid fel arfer, er y bu'n rhaid ail-drefnu y dyddiad oherwydd y tywydd oer ofnadwy a gafwyd ganol Rhagfyr. Yn y diwedd cynhaliwyd yr oedfa dau ddiwrnod cyn y Nadolig a braf oedd gweld y plant a'r ieuenctid yn adrodd stori'r geni.



Gwasaneth Nadolig y plant a'r ieuenctid

Bob blwyddyn ar noswyl Nadolig am hanner awr wedi unarddeg y nos mae oedolion ifanc y capel yn cynnal Gwylnos yn y Tabernacl. Fel yna y bu eleni eto a thema yr Wylnos oedd Wcrain wrth i ni ystyried y s efyllfa ofnadwy yno ar hyn o bryd.



Gwylnos dan ofal yr oedolion ifanc

Tradddodiad blynyddol arall yw fod Cymdeithas y Tabernacl yn cynnal Cwrdd Gweddi ar ddechrau mis Ionawr. Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi ar Ionawr 3ydd a braf oedd gweld dros ddwsin wedi dod i'r cwrdd ar brynhawn gwlyb ar ddechrau'r flwyddyn.



Cwrdd Gweddi Cymdeithas y Tabernacl

Isod mae oedfaon mis Chwefror. Beth am ymuno gydani eleni i addoli yn y Tabernacl, Hendy-gwyn? Byddwn yn falch iawn i'ch croesawu.

Chwefror
5ed: 11.00 Oedfa a phaned i ddilyn.
12fed: 9.30 Oedfa.
19eg: 10.30 Oedfa dan ofal aelodau'r ofalaeth.
26ain: 10.00 Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca, Efailwen. Siaradwraig wadd fydd Mererid Hopwood.

Bydd Ysgol Sul bob bore Sul yn Festri y Tabernacl am 9.00 – croeso i bawb.


**H THOMAS a'i FAB**

**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER
*Cartref Oddi Cartref*
Ffoniwch Judith Scott
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

## Enillwyr Clwb 100 Hywel Dda

Mis Rhagfyr
Raymond Jones - £50.
Classic Kitchens - £40.
Tom Defis - £30.
Gus Morais - £20.

GWOBRAU ARBENNIG NADOLIG
Bysiau Cwm Taf - £50.
Richard Puw - £50.

Enillwyr mis Ionawr 2023
Tony Eynon - £50.
Dave Walsh Gibbon - £40
Iona Morgan - £30.
Rosamund Halls £20.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Jean Parri-Roberts a gafodd lawdriniaeth rhai dyddiau cyn y Nadolig.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Ithel a Jean Parri Roberts ar farwolaeth eu chwaer yng nghyfraith a oedd yn byw yn Llanuwchlyn.

### Diolch

Dymuna Deborah, Mandy a theulu'r diweddar Margaret Thomas (Leggatt) diolch yn ddiffuant i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu colled drist. Diolch i Gartref Gofal Llys Newydd, Capel Hendre am y gofal a gafodd Margaret yn ystod y chwe wythnos diwethaf. Diolch i'r Parch. Kingsley Taylor am y gwasanaeth yn Eglwys Hendygwyn; i Meryl James am y blodau hyfryd; Tammy Shipton am baratoi lluniaeth yn y Neuadd Goffa wedi'r angladd. Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn drefniadau urddasol Ken a Lynys Davies a'r cefnogaeth enfawr a rhoddwyd i'r merched dros yr amser anodd yma. Diolch o galon i bawb.

## Cylch Meithrin Hywel Dda

### Enillwyr Clwb 200 Mis Rhagfyr

1af - £80 - Rhif 143 - Hayley Richards
2ail - £40 - Rhif 133 - Caryl Edwards
3ydd - £20 - Rhif 135 - Meinir Thomas

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydym ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.



Mae'n bleser croesawu'r Parch. Guto Llywelyn i'r Cylch bob mis i sgwrsio gyda'r plant a darllen stori iddynt, diolch yn fawr iddo.



Cyn y Nadolig aeth plant bach y Cylch am dro i siop newydd yn Hendygwyn, sef 'Bakers House' i ganu carolau. Mae'n hyfryd i weld siop newydd ar agor, pob lwc i Tammy a staff.



Cyngerdd Nadolig y Cylch

## Hoelion Wyth-Cangen Hendygwyn

### Cyfarfod Rhagfyr 2022

Cynhaliwyd cyfarfod Rhagfyr fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn a ceoesawyd pawb gan y cadeirydd Claude James.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

Gerald Llewellyn a'i Fab
Peirianwyr Gwresogi a Phlymwyr
Am y dewis gorau o ffyrnau i'r gegin
*Nwy neu Olew*
CELT • AGA • RAYBURN • SORN

Dryslwyn, Clunderwen
Ffôn: 01437 563589

Ein siaradwr gwadd oedd un o'r aelodau sef Cynwil Davies o Pwll Trap. Un o ardal Caio yw Cynwil, cyn symud gyda'i deulu yn y 70au i fferm Llwyndewi, Hendy-gwyn. Gydag amser, oherwydd afiechyd, gorfu iddo roi'r gorau i ffermio ac aeth yn Rheolwr Trafnidiaeth i hufenfa Hendy-gwyn. Wedyn i gwmni Mansel Davies yn Llanfyrnach a'i swydd olaf cyn ymddeol oedd yn Avonmouth, ger Bryste.

Mae llawer o ddiddordebau gan Cynwil ond ei bwnc ar y noson oedd ei waith yn creu Coeden Deuluol y teulu o ochr ei dad. Roedd yn amlwg fod ymchwil hir a thrylwyr dros ddegawd wedi mynd mewn i olrhain yr hanes a llanw'r holl fylchau teuluol. Yn ogystal â'r cyflwyniad llafar cafwyd hen luniau o'r teulu oedd yn dod a'r hanes yn fyw.

Penllanw'r gwaith oedd i Cynwil, drwy E L Jones, Aberteifi, gyhoeddi llyfr swmpus, dwyieithog, yn llawn hanes a lluniau fel bod cofnod gan aelodau o'r teulu.
Cyflwyniad arbennig gyda pawb wedi mwynhau.

### Cyfarfod Ionawr

Yn anffodus, oherwydd Covid, nid oedd yn bosib i'n siaradwr gwadd fod yn bresennol. Ar fyr rybudd, daeth un o'r aelodau sef Trefor Evans i'r adwy. Yr hyn gawsom gan Trefor oedd hanes ei fywyd dros 70 mlynedd. Cardi yw Trefor a bu yn mynychu Ysgol Gynradd Llanbed ac oherwydd swydd ei dad gydag un o'r banciau, bu hefyd yn byw yn wahanol drefi ac ardaloedd yng Nghymru fel Llanfyllin a Llanfair Caereinion a chafwyd hanesion difyr o'r adegau yma.

Roedd Trefor am fod yn athro Cynradd a bu yng Ngholeg Caerdydd yn cael hyfforddiant a mwynhaodd ei amser yno gan rannu'r amser rhwng yr hyfforddi a'r chwaraeon a chael ei ddewis i gynrychioli'r Coleg. Mewn amser yn 70au cafodd Cyril, tad Trefor ei benodi yn rheolwr ar Fanc Nat West yn Hendy-gwyn a symudodd y teulu lawr ac ymgartrefu yn y dref. Cafodd Trefor swydd dysgu yn Ysgol Iau, Hendy-gwyn ac yn ddiweddarach yn yr Ysgol Gynradd fel dirprwy bennaeth. Wedyn cafodd ei benodi yn bennaeth Ysgol Bancyfelin a bu yno am 12 mlynedd cyn cael ei benodi yn bennaeth Ysgol Gynradd Hendy-gwyn, cyn, ar ôl dwy flynedd, ymddeol a mynd i weithio yn swyddfa Bysiau Cwm Taf.

Fel y gwŷr pawb, mae gan Trefor ddiddordeb mawr mewn chwaraeon, yn cynnwys Criced, Rygbi a Phêl-droed ac mae wedi bod yn swyddog blaenllaw ym mhob un. Ar hyn o bryd mae'n ddyfarnwr criced a hefyd yn hyfforddi dyfarnwyr newydd.

I orffen dangosodd ychydig luniau pan dreuliodd dros dair wythnos o wyliau yn America a Chanada.

Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni a diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Mel Jenkins.

# MEIDRIM

**Henoed**

Daeth 26 o aelodau ynghyd i gael gwasanaeth o ddarlleniadau a charolau a baratowyd gan Meinir a Patsy. Diolchodd Glyn James iddynt am eu gwaith. Wedyn cawsom de parti hyfryd a daeth Santa ag anrheg i ni gyd eleni eto.
Ein cyfarfod blynyddol fydd mis nesaf ar Chwefror 7fed yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Byddwn hefyd yn chwarae Bingo.
Wrth y te - Lynda Newton, Danny Newton, Emrys Morgan, Violet Thomas. Yn rhoi raffl - Patsy Lewis, Lilian Rees, Lyn Herbert, Violet Thomas.

# CWMBACH

Blin gennym gofnodi marwolaeth Tom Morris, gynt o Pantymaen. Bu farw yng Nghartref Garreg Lwyd, San Cler yn 90 mlwydd oed. Bu yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys Llanwinio ac mewn nifer o sefydliadau'r ardal gan gynnwys y Clwb Ffermwyr Ifanc, Cyngor Plwyf, Pwyllgor Adloniant a'r Clwb Bowlio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i frawd Lyn a'r teulu, a'i chwaer yng nghyfraith Gwen a'r neiaint a'r nithoedd i gyd.
Bu'r angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Canon Ann Howells.

# LLANDDEWI

**Bethel**

Cynhaliwyd Oedfa Nadolig hyfryd ar y cyd rhwng Bethel, Ffynnon a'r Eglwys yn Llanddewi cyn y Nadolig. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu cyn mynd adref i weld cyffro rownd derfynol Cwpan Pel-droed y Byd !



Oedfa Undebol Llanddewi yn Bethel

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Sion Page, Caerwenog ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna Maureen Rees a Joy Anthony ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi y te prynhawn yn ddiweddar er budd Diabetes Cymru. Codwyd y swm anrhydeddus o £560.

## Capel y Graig, Trelech

Ar ddydd Sul cyntaf yr Adfent, 27ain o Dachwedd, cynhaliwyd oedfa gan Mr Nigel Davies, Llangynin. Roedd hi'n braf cael croesawu aelodau'r Ysgol Sul i'r gwasanaeth ar ddechrau'r oedfa cyn iddynt fynd allan i'r festri. Bu'r plant yn gwrando'n astud ar anerchiad/pwynt pŵer Mr Davies yn son am ddulliau cyfathrebu a siarad gyda Duw. Ar ôl gwasanaeth amrywiol ac ysbrydoledig, cafwyd seremoni troi'r goleuadau'r Goeden Nadolig y ymlaen.



Eleni, tro Mrs Ina Barnett oedd gwneud, ac i orffen fe wnaeth pawb ganu O Deuwch Ffyddloniaid. Diolch yn fawr iawn i Steffan Harries am addurno a rhoi'r goeden yn ei lle a hefyd i Eifion a Menna Thomas Jones am addurno'r capel ar gyfer digwyddiadau'r Nadolig.

Ar nos Sul, 4ydd o Ragfyr, cafwyd noson i'w chofio pan ddaeth cynulleidfa niferus iawn i Gymanfa Fodern dathlu 50 Ysgol Hafodwenog. Roedd pob eitem yn wych a'r canu cynulleidfaol yn wefreiddiol.

Y Sul canlynol, daeth cynulleidfa niferus eto i wasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc. Diolch yn fawr i'r plant am berfformio Drama'r Geni mor hyfryd, i'w hathrawon Eirlys Phillips ac Eleri Rees am eu hyfforddi, ac i'r bobl ifanc am eu cyflwyniadau graenus. Eirlys Phillips a Carys Williams oedd yn cyfeilio. I ddilyn y gwasanaeth cafwyd Parti Nadolig yn y Ganolfan, lle y daeth ymwelydd pwysig iawn sef Sion Corn am dro! Diolch yn fawr i Sion Corn am yr anrhegion ac am fod mor hwylus ac i Alyson Harries, Arolygwr yr Ysgol Sul am y siocledi. Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb fu'n paratoi, gweini a bwyta'r bwyd.



Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc

Dyma enwau'r rhai fu'n cymeryd rhan:

Joseff a Mair - Zara a Mila
Y Bugeiliaid - Lois ac Elain
Y Doethion - Owain, Marged ac Iwan
Gŵr y Llety - Deiniol
Gwas y Llety - Elis
Angylion - Anna, Mari, Gwen, Fflur, Marged a Luned
Hefyd yn y llun mae Llywelyn, Eiri ac Erin.

Yn ystod yr wythnos fu'n arwain at y Nadolig, aeth grwpiau o'r Capel o amgylch yr ardal i ganu carolau a chodi arian tuag at elusen SANDS *(Stillbirth and Neonatal Death Society)*. Casglwyd £800, diolch i bawb fu'n canu a chyfrannu.

Ar Noswyl y Nadolig am 11.30 yr hwyr, cynhaliwyd y Plygain gyda'r canlynol yn cymryd rhan: Sylvia Thomas - Bwlchnewydd; Eira Lewis - Capel Cendy; Malcolm Evans - Ffynnonbedr; Linda Davies, Indeg a Tomos Jameson - Pen y bont; Caroline Harries, Eifion Jones, Jean a Gwawr Lewis, Elin ac Anwen Phillips, Eleri Rees, Rhian Thomas - Capel y Graig ac yn cyfeilio roedd Eirlys Phillips. Diolch i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth.

Ar yr ail ddydd Sul yn y Flwyddyn Newydd, 8fed o Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth undebol yng Nghapel Pen y bont a oedd yn ngofal aelodau'r ofalaeth. Diolch i bawb am wasanaeth hyfryd.

## GLANDWR

### Dathlu Pen-blwydd yn 90 oed

Mae dau aelod hynaf Capel Glanwr wedi dathlu eu penblwydd yn 90 oed dros y Nadolig sef Mrs Edith Davies Llandysilio, gynt o Fferm Glandwr a Mr Dai Phillips Crymych, gynt o Tanybryn. Mae y ddau wedi cadw yn ffyddlon iawn ac yn mynychu'r oedfaon yn rheolaidd o hyd. Dymunwn iechyd a nerth iddynt i'r dyfodol



Mrs Edith Davies



Mr Dai Phillips

**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Raymond Owen, Talybont, Gwynedd | £30 |
| Gerwyn a Maureen Eynon, Penralltfach | £20 |
| Winnie James Phillips, Crymych | £10 |

Diolch yn fawr

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRO BRYNACH

Hyfryd oedd croesawu wyth o ddisgyblion newydd atom yn y Flwyddyn Newydd. Braf hefyd oedd croesawu dwy aelod o staff newydd sef Miss Rebecca Wilson a Miss Elin Mair Lewis. Pob hwyl iddyn nhw gyd fel rhan o deulu Bro Brynach.

## Cwis Dim Clem



## Diwrnod Plant Mewn Angen

Ar Dachwedd 18fed, trefnodd y Cyngor Ysgol amrywiaeth o weithgareddau i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Gwisgodd yr ysgol gyfan mewn smotiau. Codwyd £157.20.

## Ymweliadau

Diolch i gyfraniadau gan y GRhaFf aeth y dosbarthiadau ar ymweliadau cyffrous iawn yn ystod mis Rhagfyr. Aeth y Dosbarth Meithrin a Derbyn i weld Sion Corn ar reilffordd Dyffryn Teifi. Aeth Dosbarth Miss Bryan a Mrs Newman i weld pantomeim 'Y Bachgen Bach Gwyrdd'. Mwynhaodd Dosbarth Miss Gibby berfformiad arbennig gan Ysgol Dyffryn Taf o'r sioe 'Grease'.

## Cinio'r Gymuned

Hyfryd oedd croesawu'r gymuned yn ôl i'r ysgol unwaith eto i fwynhau cinio Nadolig. Diolch i'r Cyngor Ysgol am eu cymorth yn trefnu'r achlysur ac yn gweini'r bwyd, cyfle da i ddatblygu eu sgiliau menter a busnes!

## Ysgolion Iach



Llongyfarchiadau gwresog i'r Pwyllgor Ysgolion Iach am lwyddo i ennill gwobr Cam 5 yn y Cynllun Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin.
Roedd y wobr yma yn canolbwyntio ar Iechyd Meddyliol ac Emosiynol disgyblion.

## Gŵyl y Gaeaf

Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr ysgol am eu perfformiad arbennig o'n sioe Nadolig 'Gŵyl y Gaeaf' yn Neuadd y Farchnad. Diolch yn fawr iawn i bawb a helpodd i greu perfformiad i'w gofio. Diolch yn fawr i holl deuluoedd Ysgol Bro Brynach am gefnogi'r sioe.

## Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor, trist iawn oedd ffarwelio gyda Mrs Amber Williams a Miss Catharine Owen. Diolch o galon i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled fel rhan o'n tim ni a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# YSGOL BECA

## Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau rhaglen pêl-droed Cwpan y byd



Cafodd ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 gyfle gwych ar yr 11eg o Dachwedd i ddysgu sgiliau pêl-droed newydd. Trefnwyd y rhaglen gan Actif Sir Gaerfyrddin fel modd o annog disgyblion i fod yn actif ac i dynnu sylw i'r chwaraeon wrth i Gymru chwarae yng Nghwpan y Byd.

### Wythnos gwrth fwlio



Roedd hi'n wythnos gwrth fwlio, wythnos y 14eg o Dachwedd. Fel ysgol penderfynom gael diwrnod sanau od er mwyn codi ymwybyddiaeth. Ynghyd â hyn, cafodd y disgyblion gyfleoedd o fewn eu dosbarthiadau i drafod sut mae bod yn ffrind da.

### Diwrnod Plant mewn Angen

Ar y 18fed o Dachwedd trefnodd y Cyngor Ysgol llu o weithgareddau i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Gwisgodd yr ysgol gyfan eu pyjamas am y dydd. Diolch i Pydsi am ddod i weld y disgyblion! Codwyd dros £100.

### Trip i Techniquest

Buodd dosbarthiadau Carn Menyn a Chwm Cerwyn yn ffodus i fynd ar drip i Techniquest yn ddiweddar. Aethom am y dydd i'r ddinas fawr a chafodd y disgyblion gyfle gwych i grwydro'r adeilad a chwarae gyda'r holl adnoddau. Ar ôl cinio aethom i wylio'r Sioe Grymoedd yn y stiwdio. Cafodd y disgyblion amser gwych wrth wylio'r sioe ar ôl dysgu am rymoedd yn ein gwersi gwyddoniaeth yn ystod y tymor.



Ymweld a Techniquest

### Cwis Dim Clem

Diolch i Fenter Gorllewin Sir Gâr am drefnu'r Cwis Dim Clem eto eleni. Bu Euan, Alfie, Gwen a Maisie yn Ysgol Griffith Jones i gystadlu yn y rownd gyntaf. Da iawn chi blant!



### Noson garolau'r Urdd

Ar noson oer ar yr 8fed o Ragfyr casglodd criw o ddisgyblion lleol yng Nghapel Blaenconin i ganu carolau'r Nadolig. Cafwyd noson lwyddiannus yng nghwmni'r gymuned leol ac roedd yn ddechrau da i ddathliadau'r wŷl. Roedd y gweinidog Huw George yno i annerch y plant ac roedd llond y lle yno'n mwynhau.

### Santa ar Streic

Llongyfarchiadau mawr i holl blant yr ysgol am eu

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth · Cyflogau
Cadw Cyfrifon · Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

formiad arbennig o'n sioe Nadolig 'Santa ar Streic'. Diolch yn fawr iawn i bawb a helpodd i greu perfformiad i'w gofio. Diolch yn fawr i holl deuluoedd Ysgol Beca am eu cefnogaeth i'r sioe.





Sioe Nadolig yr Ysgol

### Hwyl y Nadolig

Cawsom barti Nadolig i blant yr ysgol ar Ragfyr yr 21ain. Buom yn ffodus iawn i allu croesawu Sion Corn atom ac fe ddaeth ag anrheg i bob plentyn!

### Cydymdeimlad

Hoffwn fel ysgol estyn ein cydymdeimlad dwys â Mr Roy Llewellyn a'r teulu. Bu Mrs Rhoswen Llewelyn yn athrawes yn Ysgol Beca am flynyddoedd a bu ei chyfraniad i fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod ei chyfnod yma yn amhrisiadwy.

## YSGOL HAFODWENOG

### Pêl Rwyd



Da iawn i'r tim pêl-rwyd am gystadlu yn nhwrnament yr Urdd. Diolch arbennig i Elin Davies am hyfforddi'r disgyblion.

### Plant mewn Angen



Diwrnod llawn hwyl a sbri yn codi arian i Blant mewn Angen.

### Cwis Dim Clem



Rydym yn falch iawn dros y pedair yma'n cynrychioli'r ysgol wrth gystadlu yn y Cwis Clem gyda Menter Gorllewin Sir Gar.

### Castell Henllys



Diwrnod bendigedig yng Nghastell Henllys. Cafodd dosbarth Cae Glas ddiwrnod llawn gweithgareddau cyffrous gan ddysgu cymaint am fyw fel Celt dros 2000 o flynyddoedd yn ôl.

### Mrs Elinor Jameson

Diolch yn fawr i Mrs Elinor Jameson am ddod i rhoi hanes ac ateb cwestiynau'r disgyblion am Ysgol Hafodwenog 'slawer dydd'

### Mrs Swyn Roberts

Diolch i Mrs Swyn Roberts Tîm Datblygu'r Gymraeg am ddysgu disgyblion Cae Glas tymor diwethaf.

### PC Cath

Diolch i PC Cath am alw i weld disgyblion Cae Glas ac i son am SMART ar lein.

### Cymanfa Fodern

Cafwyd dechreuad arbennig i'n dathliadau 50eg mlwyddiant gyda'r Gymanfa Fodern yng Nghapel y Graig.

Diolch i'r artistiaid, cyfeilyddion, arweinyddion, llywydd a phawb am ddod. Roedd yn wych i weld y Capel bron yn llawn. Codom £790 tuag at yr ysgol. Diolch o galon i bawb am gyfrannu.



# YSGOL GRIFFITH JONES

## Pêl-rwyd yr Urdd



Bu tîm pêl-rwyd merched yr ysgol yn cystadlu yn Nhwrnment yr Urdd yn Y Pod ar gampws Prifysgol Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mwynhaodd y merched chwarae'r dair gêm.

## Diwrnod y Cofio

Cafwyd dwy funud o dawelwch ar Dachwedd yr 11eg gyda phob dosbarth yn cynnal gwasanaethau. Bu Efa Thomas, Ellie Davies, Adam Lewis a Cai Thomas yn cynrychioli'r ysgol yn y Gwasanaeth Cofio wrth gofeb Sanclêr.

## Sul y Cofio

Diolch i'r Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau am gynrychioli'r ysgol a gosod torch o babis coch ar fore Sul y Cofio.

## Sioe Y Dyn Bach Gwyrdd

Aeth disgyblion yr Adran Iau i weld sioe Y Dyn Bach Gwyrdd gan Caryl Parry Jones a Non Parry yn y Lyric ar fore Llun, Tachwedd 14eg. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr iawn a chafwyd neges bwysig am wrth-fwlio hefyd.

## Cogurdd

Buodd bron 40 o blant o flynyddoedd 4 i 6 wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer rownd gyntaf Cogurdd yn yr ysgol. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd 'Brechdan Blasus'. Cafwyd gwledd o frechdanau amrywiol a phawb wedi paratoi'n drylwyr.
Llongyfarchiadau mawr i Enlli Morgan-Davies o Flwyddyn 5 am ennill y gystadleuaeth. Fe aeth hi ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn ail rownd y gystadleuaeth ym Mro Myrddin ar ddechrau mis Rhagfyr.

## Diogelwch ar y We

Daeth P.C. Cath i ymweld â Dosbarthiadau Olwen a Rhiannon ym mis Tachwedd. Bu'n arwain sesiwn i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o Ddiogelwch ar y We.

## Chwarae hoci dros Gymru

Fel rhan o'n thema Gorau Chwarae, Cyd Chwarae daeth Mr. Craig Jones i siarad â dosbarthiadau Gwenllian a Pwyll am ei daith i Dde Affrica ym mis Hydref. Bu'n cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd Hoci. Roedd Shane a Gethin yn falch iawn o lwyddiant eu tad.

## Plant mewn Angen

Daeth pawb i'r ysgol mewn pyjamas ar ddydd Gwener, Tachwedd 18fed i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig a buont yn brysur iawn yn gwerthu raffl i'r rhieni a'r disgyblion. Isaac Daniels enillodd y wobr gyntaf sef cacen Pudsey a wnaed gan Mrs. Lisa Jones. Llwyddwyd i godi £526.56.

## Gwersi Nofio

Bu plant Blwyddyn 4 yn mynychu gwersi nofio bob dydd am dair wythnos ym mis Tachwedd.

## Bingo Ben

Cafwyd noson lwyddiannus iawn a chodwyd £3,360 gan y Gymdeithas Rieni. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb wrth eu boddau yn cymdeithasu wrth chwarae bingo. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi. Diolch arbennig i Mrs. Elinor Evans a'r GRAaFf am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y noson.

## Cwis Dim Clem

Bu 4 o blant o flwyddyn 6, Dosbarth Pwyll yn cystadlu yng Nghwis Dim Clem Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr. Croesawyd timoedd o ysgolion lleol i'r ysgol fel rhan o'r gystadleuaeth, gan gynnwys Llys Hywel, Beca a Bro Brynach. Cafwyd cystadleuaeth dda ac agos ac roedd y plant yn ateb y cwestiynau yn frwdfrydig.

## Ffair Nadolig

Roedd y neuadd yn orlawn ar noson Ffair Nadolig y GRAaFf. Roedd gan y siopwyr ddewis eang o stondinau amrywiol yn gwerthu nwyddau Nadoligaidd. Bu Côr yr Ysgol yn canu nifer o ganeuon Nadolig i ddiddanu'r siopwyr. Llwyddwyd i godi £752.60

## Grease

Ar fore dydd Mawrth, Rhagfyr y 6ed, cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i fynd i Ysgol Dyffryn Taf i weld cynhyrchiad o'r sioe 'Grease'. Cawsom wledd o

ganu, dawnsio a pherfformio a braf oedd gweld ambell gyn-ddisgybl wrthi ar y llwyfan!

### Nadolig

Cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus iawn gyda disgyblion Blynyddoedd 1 – 6 yn cyflwyno sioe 'O Qatar i Gymru.' Taith pedwar cefnogwr pêl-droed Cymru a oedd yn ymweld â nifer o wledydd eraill a fu'n cystadlu yng Nghwpan y Byd ar eu ffordd adref o Qatar.
Cyflwynodd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn Stori'r Geni. Dyma'r tro cyntaf i'r plant hyn gael cyfle i ymddangos a pherfformio ar lwyfan.
Cynhaliwyd partïon ac fe fwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus iawn yn eu siwmperi Nadolig.

### Sioe Martyn Geraint

Cafodd disgyblion Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 amser wrth eu bodd yn gwylio a chymryd rhan yn sioe Nadolig Martyn Geraint ar ddiwedd y tymor. Gwnaethant gwrdd â nifer o gymeriadau bach diddorol, yn ogystal â chanu a dawnsio yn llawen. A'r neges oedd i'w chlywed drwy'r sioe oedd ei bod hi'n cŵl i siarad Cymraeg. Diolchodd y plant iddo am brynhawn hyfryd, ac am anrheg arbennig i bob un.

Côr yr ysgol



Mwynhaodd ein côr ysgol ymweld â thrigolion Y Garreg Lwyd yn Sanclêr. Buont yn canu nifer o ganeuon Nadoligaidd a chawsant eu gwobrwyo â lluniaeth blasus.

### Ffarwelio

Hoffem ddymuno pob lwc i Miss Kate Evans a wnaeth ein gadael ar ddiwedd y tymor. Roedd Miss Evans yn dechrau yn Ysgol Gymraeg y Ffwrnais, Llanelli ar ôl y Nadolig. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith caled fel rhan o'n tîm ni dros y blynyddoedd.

### Croeso


Croesawyd 9 o blant newydd i'r Dosbarth Meithrin ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Pob lwc iddyn nhw i gyd ar ddechrau eu siwrnai gyda ni.
Croeso arbennig hefyd i aelod o staff newydd i'n plith. Mae Mrs Angharad Jameson wedi dechrau fel athro dosbarth. Dymunwn yn dda iddi.

# Cornel Llên

HAPUS WRTH EI HUN MEWN BREUDDWYD ROC A RÔL?

Cleif Harpwood sy'n diosg yr haenau i gyd mewn hunangofiant ar drothwy oed yr addewid.

"'Ry'n ni'n meddwl dechre grŵp," medde Iestyn (Garlick) wrtha i un diwrnod rhwng darlitho'dd... "Pam lai?" medde fi, a dyma ddechre ar 'y mherthynas i â'r byd adloniant Cymraeg."




Felly mae Cleif Harpwood yn ei dweud hi, ac mae ei hunangofiant, Breuddwyd Roc a Rôl? (Y Lolfa) yn dweud llawer mwy hefyd. Mae'n rhyfedd sut mae moment mor ymddangosiadol fach yn gallu dal cymaint o ystyr wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, oherwydd roedd y foment hon yn foment fawr mewn gwirionedd. Dyma ysbardun gyrfa'r canwr a'r perfformiwr gwalltog, ac mae'n dal i ganu a pherfformio gyda'r un angerdd digymar hyd heddiw. Cleif Harpwood – yn aelod o fand Ac Eraill, yn brif leisydd i fand Edward H. Dafis, ac yn beth wmbreth mwy hefyd. Cawn yma flas ar y rhan a chwaraeodd ef wrth fynd yn groes i'r graen ac arloesi ar y sîn roc, a chawn fewnweledìad ar yr ochr chwerw o'i fywyd a'i yrfa, sy'n profi na fu popeth yn fêl i gyd iddo.

Meddai'r awdur:

'Do, fe gawson ni lot fawr o hwyl wrth deithio Cymru ac mae'r gyfrol yn adrodd ambell stori am y giamocs a'r direidi oedd yn rhan o'r profiad o fod mewn band. Mae hefyd yn ymdrin â'r berthynas arbennig oedd yn bodoli rhwng y pump aelod, mi ro'dd Edward H yn frawdoliaeth. Y tristwch yw bod pundits y sîn roc heddiw yn diystyru'r cyfnod hwn yn llwyr gan mai 1980au yn eu tyb nhw oedd dechreuad y byd roc Cymraeg.'

Ond pam nawr? A pham cyhoeddi? Mae gan yr awdur ateb i hynny. Meddai: 'Yn bennaf oherwydd mod i'n dathlu fy mhen-blwydd yn 70 oed yn 2023, a roeddwn yn teimlo, fel un sydd wedi cael y fraint o fyw bywyd digon amrywiol a lliwgar, llawer ohono yn llygaid y cyhoedd, bod 'na agwedde eraill o 'mywyd yr hoffwn eu rhannu – y llon a'r lleddf.

Mae Cleif Harpwood yn ganwr ac yn gyfansoddwr adnabyddus. Roedd yn aelod o fandiau Ac Eraill ac Injaroc ac yn brif leisydd y band arloesol Edward H. Dafis. Fe dreuliodd flynyddoedd yn gweithio fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr teledu ar nifer fawr o wahanol raglenni i'r BBC, ITV, CH4, S4C a'r sector annibynnol.

Pisga Llandysilio

## CYNGERDD

Nos Wener 17 Mawrth 2023 am 7.30yh
Yr elw at
Gymdeithas Cae Chwarae a Neuadd Llandysilio

**Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch**
**Hefina Jones**
Cyfarwyddwraig Cerddoriaeth, Cyfeilydd
**Owain Lewis**
Cyfeilydd
Unawdwyr
**Sioned Wyn Llewelyn**
(soprano)
**Owain Jenkins**
(bas)
Cyflwynydd a chyfranwr
**Siôn Jenkins**

**Tocynnau £10**
oddi wrth
Haulwen Pridmore
07788816980
Anna Williams
07850 713902
anna.williams2047@gmail.com


LYNDON GEORGE

**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**





**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

Jones Login
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| Ionawr 2023 | | |
| Sad 28 | *Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Ebrill | | |
| Sad 24 | *Sioe Gerdd - Jersey Boys, CMC a* Bae Caerdydd | 4 |
| Llun 26 | **Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog** | 4 |
| Sad 29 | *Sioe Gerdd - The Bodyguard, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Mai | | |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Charlie & The Chocolate Factory, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 15 | **Hyfrydwch Sir Lincoln** | 5 |
| Llun 22 | **Petalau, Pabi a Phorslen** | 5 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - The Commitments, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Mehefin | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Spongebob, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Mer 21 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Mer 28 | **Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid** | 7 |
| Gorffennaf | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| Awst | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| Medi | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |
| Hydref | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** | 5 |
| Sad 21 | *Drama - Life of Pi, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| Tachwedd | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |
| Rhagfyr | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

# PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd hapus i Gruffudd Llewelyn a fydd yn 7 oed ar Chwefror 20fed. Cariad mawr Mami, Dadi, Gwilym Huw, Mamgu Waunfach a'r teulu i gyd.



Penblwydd hapus i Ffion Lois Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 5 oed ar Ionawr 2il. Daw'r cyfarchion wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn James), Anti Iona ac Wncwl Ceri. Bu Ffion yn ddigon ffodus i gael gwisg pel-droed Cymru yn anrheg wrth Sion Corn.



Penblwydd hapus Luned yn 7 oed, joia dy ddiwrnod. Cariad mawr, Mami, Dadi, Aneurin, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch. X





Penblwydd hapus iawn i Lleucu Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymych a fydd yn 3 mlwydd oed ar Ionawr 31ain. Cariad mawr wrth, Mam, Dad, Megan, Gwen, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, Mamgu Tymawr a'r teulu i gyd.



Menter Gorllewin Sir Gâr

## Newyddion Menter Gorllewin Sir Gâr

**Coffi a Chlonc:**
Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

**Paned a Sgwrs:**
Mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob ddydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno. I gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru.

**Sesiynau stori:**
Rydym yn cynnal sesiynau stori bob pythefnos mewn tair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yn Llyfrgell Caerfyrddin am 10:30am. Yn Maesycrugiau/Llanllwni ar ddydd Mawrth yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni am 10:30am. Yn San Clêr ar ddydd Iau yn Y Gât am 1:30pm. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda luned@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag betsan@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Clybiau Darllen:**
Mae clybiau darllen y Fenter sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom yn ôl. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar y trydydd nos Fawrth y mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda nia@mgsg.cymru | betsan@mgsg.cymru

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 3ydd Chwef | DARTMOOR ac ARFORDIR DE DYFNAINT | £295 | 4 Diwrnod |
| Iau 9fed Chwef | Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN | £349 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Chwef | WESTON SUPER MARE | £355 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Chwef | MORDAITH DYCHMYGOL - NGWESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Chwef | PENWYTHNOS O SEIBIANT YN BIDEFORD | £275 | 4 Diwrnod |
| Sul 5ed Mawrth 2023 | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES | £300 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Mawrth | Hwyl a Ssbri gyda CLIVE a'i Ffrindiau yn y CELTIC CAERNARFON | £220 | 3 Diwrnod |
| Gwener 17eg Mawrth | PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY | £300 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Mawrth | YNYS WYTH - SANDOWN - ISLE OF WIGHT | £410 | 5 Diwrnod |
| Llun 27ain Mawrth | BOURNEMOUTH - "NEW FOREST a BEAULIEU" | £375 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Ebrill | RHEILFFYRD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 14eg Ebrill | MOETHUSRWYDD GWESTY'r BELGRAVE SANDS TORQUAY | £330 | 4 Diwrnod |
| Sul 16eg Ebrill | ?????????? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ????????? | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 21ain Ebrill | PENWYTHNOS GYMREIG YN Y TYNEDALE LLANDUDNO | £405 | 4 Diwrnod |
| Gwener 28ain Ebrill | TAITH Y LLWYBRAU BLODAU EVESHAM | £285 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SBAEN - YSBLANDER CANTABRIA | £1,100 | 10 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SCARBOROUGH | £560 | 6 Diwrnod |
| Gwener 19eg Mai | HYFRYDWCH DARTMOOR ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £375 | 3 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | CRWYDRO'R ALBAN - YNYSOEDD LEWIS a SKYE HEBRIDEAN | £1,070 | 8 Diwrnod |
| Llun 5ed Mehefin | GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 7fed Mehefin | TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON | £1,275 | 11 Diwrnod |
| Gwener 16eg Mehefin | SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD" | £195 | 2 Ddiwrnod |
| Llun 19eg Mehefin | TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR | £485 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Mehefin | CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD | £365 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 24ain Mehefin | TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN | £1,150 | 8 Diwrnod |
| Mawrth 27ain Mehefin | LLANDUDNO YN YR HAF | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Gorff | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorff | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorff | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU | | |
| Iau 13eg Gorff | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Sul 16eg Gorff | SUFFOLK | £550 | 5 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorff | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorff | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain Awst | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 2ail Medi | LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hyd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hyd | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hyd | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tach | TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tach | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tach | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tach | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tach | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teyrnged i Bryan Owen, Caerfyrddin, gynt o Dŷ Capel Hebron



Yn 1945, daeth diwedd ar y rhyfela, a'r byd, diolch byth, yn dathlu heddwch ar ôl erchylltra'r Ail Ryfel Byd. Roedd yna reswm ychwanegol i ddathlu yn Hebron, oherwydd ar Dachwedd y seithfed 1945, daeth Bryan John i'r byd. Heddwch yn y byd, ond faint o heddwch oedd yn Pleasant View Hebron gyda babi arall ar yr aelwyd? Digon i gadw May a Gomer Owen yn brysur; y ddau yn gweithio'n galed i roi cychwyn da i'r bois.

Sydyn iawn yr aeth y blynyddoedd heibio a da'th yr amser am y daith ddyddiol draw i Ysgol Gynradd Glandŵr. Tasg Mr Aneirin Griffiths a'r staff oedd addysgu y Bryan Owen ifanc. Yn ystod y cyfnod yma, symudodd y teulu i Islwyn ym mhentre Glandŵr, o'dd yn agos iawn i'r ysgol. Roedd fwy o le i chware' yn Islwyn a mwy o gyfle am felltith! Cofiaf un achlysur pan fu 'na arbrofi gyda'r smoco! Gwelodd mam fwg yn codi ochr draw i'r llwyni. "Beth o'dd y mwg na bois?" Ateb Bryan, yn dangos arwyddion cynnar o'i hiwmor, "Indians mam!!"

Cychwyn ei addysg uwchradd yn yr Hendygwyn cyn symud ymlaen i'r ysgol gyfun newydd yn Crymych, Ysgol y Preseli. Buan iawn y daeth y crwt o Hebron yn un o gymeriadau'r ysgol, poblogaidd gyda'i gyd ddisgyblon a'r staff.

*Yn Ysgol y Preseli, tipyn o sbarc.*
*Ar lwyfan drama a chae rygbi,*
*O hyd yn gwneud ei farc!*

Yn nyddiau ysgol, fel fi, un o fois y rheng flaen oedd. Daeth dydd i'r Preseli chwarae'r Hendygwyn â'r brodyr Owen yn pacio lawr yn erbyn ei gilydd! Aeth Bryan ymlaen i chwarae i Glwb Rygbi Arberth ac yng nghyswllt rygbi, roedd o flaen ei amser, gan iddo fynd i chwarae dros y dŵr! Mwy am hynny eto.

Gadael ysgol yn 1962 a dilyn ôl traed ei rieni trwy weithio am gyfnod i Bobyddion Hebron. Roedd yna edrych ymlaen wythnosol am alwad y becer ifanc golygus gyda'i fara a'i ddanteithion; gyda'i hiwmor a'i ddireidi. Ymlaen wedyn i wneud prentisiaeth gyda'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan, ym mhwerdy Porth Tywyn gan ymgartrefu mewn carafan gyda phrentis arall. Doeth fyddai peidio ail adrodd rhai o helyntion y garafan!! Er tegwch iddo, gweithiodd yn galed ac ennill cymhwysterau fyddai'n hynod o ddefnyddiol yn ystod ei yrfa.

Cymhwysodd fel gweithredwr tyrbini a boileri ac ar ol Porth Tywyn aeth i weithio i bwerdai Aber-wysg ac Aberddawan. Y cartref yn y cyfnod yma oedd 230 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd. Ymhlith ei gyd letywyr, am gyfnod yn 1967, o'dd y chwaraewyr rygbi rhyngwladol, Gerald Davies a Barry John. Dwy flynedd yn ddiweddarch, swydd ym Mhurfa Olew Gulf â theithio dyddiol o Hebron i Aberdaugleddau. Tŷ Capel o'dd y cartref teuluol erbyn hyn wrth gwrs, gan i'n rhieni symud yn ol i Hebron yn y pumdegau hwyr.

Afraid dweud fod mam, gweddw erbyn hynny, yn sobor o falch o'i gael yn ol adref. Teithio dyddiol i fro'r Cleddau ond gyda'r nos a'r penwythnosau, i fro'r Teifi fydde'r car yn mynd!! Roedd cariad yn y gwynt; roedd wedi cwrdd â Barbara, merch o Aberteifi oedd yn gweithio fel technegydd labordy ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dwysáu wnaeth y berthynas a phriodwyd y ddau yng Nghapel Mair, Aberteifi, Ebrill 1974. Roedd amseriad y briodas yn berffaith gan fod Bryan newydd sicrhau cytundeb statws gŵr priod i weithio i gwmni Chevron yn Freeport, Grand Bahama. Nawr i'r rhan fwyaf o bobl, cyfnod o ychydig wythnosau yw'r mis










mêl ond i Bryan a Barbara, parhaodd am ddeng mlynedd!

Caru brwd yn y Caribi ddaeth â'i gynhaeaf a ganwyd iddynt ddwy ferch, Wendy gyntaf ac yna Catrin. Y gynecolegydd oedd Dr. David Jenkins, yn wreiddiol o Gastell Nedd ac yn digwydd bod yn Lywydd Clwb Rygbi Freeport. Chwaraeodd Bryan i'r clwb a chan i'r cyfnod fod cyn Gatland, roedd yn dal yn gymwys i gael ei ddewis i Gymru!! Disgrifiodd Bryan y deng mlynedd yn y Bahamas fel "gwyliau gweithio;" do, bu'n fis mêl hir! Yn 1982, dychwelodd Barbara a'r merched adref, i baratoi ar gyfer genedigaeth Gareth. Gyda dwy ferch a bachgen, roedd y teulu nawr yn gyflawn. Yn 1984, newid gwlad, diwylliant a'r ffordd o fyw, wrth iddo gymryd swydd yn Sawdi Arabia. Yn dilyn ymosodiad Irac ar Kuwait, daeth y cytundeb hwnnw i ben a bu newid pellach wrth iddo fynd i weithio i Oman. Roedd y cytundeb tro yma yn ei alluogi i dreulio un mis ymhob tri yng Nghaerfyrddin, lleoliad cartref y teulu erbyn hynny. Symudiad arall yn 2005, gan gyfnewid gwres Oman am oerfel Kasakhstan. Symudodd yn ôl i'r cartref yng Nghaerfyrddin dair blynedd yn ddiweddarach a mynd i weithio fel signalwr i'r Rheilffyrdd Prydeinig yn yr Hendygwyn. Dim digon cyffrous i'r nomad fodd bynnag ac i gyfeiriad cytundeb arall dros y dŵr o'dd signal Bryan yn pwyntio!

*Y Dwyrain Canol eto*
*A'i tynnodd e yn ol,*
*Mewn olew oedd yr arian,*
*We' Bryan ddim yn ffôl!*

Wedd e'n gweud ambell waith, bo mwy yn i ben e na fi ond bo fi'n "iwso gwmint we da fi'n well." Mae'n siwr fod e'n iawn. Wedd e'n storiwr pen i gamp a ma' hen lun yn dangos Bryan yn dweud jôc ar aelwyd Tŷ Capel â'i gyfeillion bore oes o'i gwmpas, yn chwerthin 'sbo nhw'n shwps!!

*Dawn dweud,un doniol ein dyn,*
*Werth grondo i gal wherthin.*

Wedi dwy flynedd arall yn Oman, dychwelodd i Kasakhstan. Prosiect ar "ynys o waith dyn" ym môr y Caspian, sy'n rhannol rewi drosto yn y gaeaf. Goroesodd un gaeaf ac yng ngeiriau Bryan, "towles y towel miwn, Ionawr 2013." Ar ôl bron i ddeugain mlynedd, daeth y cytundebau tramor i ben. Mae llinell o gerdd R Williams Parry i Hedd Wyn, yn addas iawn:

*A daeth i ben deithio byd.*

Mwy o amser bellach i'w dreulio gyda'r teulu yng Nghaerfyrddin, Glan y Fferi a Chaerdydd adeg hynny. Roedd yn ddyn i'w deulu a bob amser yn ymfalchio yn eu llwyddiannau. Dyma'r teulu sydd bellach yn gorfod ymdopi â'r boen o'i golli. Wrth iddo ddychwelyd am y tro olaf i Gapel Hebron, priodol oedd cofio am ddylanwad y capel arno. Mynychu'r Ysgol Sul a'r Band of Hope ynghyd â'r oedfaon wrth gwrs; pob un yn eu tro yn rhoi'r gwerthoedd â liwiodd ei gymeriad. Byddai Bryan, ar ambell achlysur, yn helpu swyddogion yr eglwys i godi llwyfan yn y sêt fawr ar gyfer cyngerdd blynyddol Gwener y Groglith. Dyma lwyfan fu'n feithrinfa i'r doniau ifanc a'u cyflwyno i'r profiad o berfformio'n gyhoeddus.Yn hwyrach, daeth y Gymdeithas Chwedl a Chân, â sefydlwyd gan y diweddar Barchedig J Towyn Jones. Dengys hen gerdyn aelodaeth mai Bryan Owen oedd y cadeirydd yn y tymor dan sylw a'i fod hefyd ymhlith y siaradwyr yn yr Ymryson Areithio a gynhaliwyd fel rhan o raglen y tymor.

Niferus oedd y cyfeillion ddaeth ynghyd i ffarwelio â "Bryan Gom", Tachwedd 24, 2022 a pharchus y cynulleidfaoedd yn Hebron a Pharc Gwyn. Tystiolaeth o'i boblogrwydd. Arweiniwyd y gwasanaethau'n ddeheuig gan y Parchedig Huw George. Gedy Bryan etifeddiaeth gyfoethog o atgofion a rheiny bellach fydd yn helpu i gynnal ei deulu. Diolch iddo amdanynt.

Mae'r gair olaf yn mynd i R Williams Parry:

*Daeth awr i fynd i'th weryd,*
*A daeth i ben deithio byd.*

Raymond Owen


**Emrys ac Ann Murrow**

**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**

Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau

Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

**Celia Vlismas**
OPTEGYDD



Croeso i
gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

**Robert W. R. Morgan**

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Calon Wlân

Wenfro – O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae siop wlân Glanwen, y ddafad, yn llawn o galonnau gwlanog ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen.

**Fedrwch chi ddyfalu faint o bob cynllun sydd yno?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/02/23**

Elen Haf Thomas, Plaspaun, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Pwmpen Pwy?
Ateb: Glanwen gerfiodd y bwmpen fuddugol.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

*parhad o dudalen 44*

Roedd hon yn gêm gystadleuol tu hwnt a gwnaeth Aberteifi brofi yn her enfawr i ni.

Rhagfyr 17eg – San Cler v Llanybydder. Bu rhaid gohirio'r gêm oherwydd glaw trwm, byddwn yn ail drefnu'n fuan.

Ionawr 7fed – Llangwm 6 San Cler 64. Er gwaetha'r glaw a'r amodau anodd, sgoriodd San Cler deg cais – dau gais yr un i Jac Howells, Llifon Davies a Tomos Williams, cais yr un i Tomos Rees, Liam Rogers, Thomas Mason a Jonathan Gostling. Llwyddodd Dan Griffiths gyda saith trosiad.

**Gemau i ddod**

Ionawr

14eg - San Cler v Hwlffordd

21ain - Talacharn v San Cler (Rownd 16 olaf Cwpan Adran 3 Undeb Rygbi Cymru)

28ain - San Cler v Neyland

Chwefror 18fed - Quins Doc Penfro v San Cler

Mae'r tîm cyntaf wedi ennill ei 19 gêm diwethaf (gan gyfrif pob gem gystadleuol a gemau cyfeillgar cyn dechrau tymor) ond bydd rhaid iddynt fod ar ei gorau dros yr wythnosau nesaf pan fyddwn yn chwarae yn erbyn Hwlffordd, Talacharn a Neyland. Mae'r hyfforddwyr a'r garfan yn parhau i ganolbwyntio'n llwyr wrth i ni anelu i aros ar y brig. Dymunwn yn dda i'r bechgyn o nawr tan weddill y tymor - rydym dal ar frig y gynghrair wedi i ni ennill 9 gem allan o 9.

**Tim Datblygu**

Dim ond un gêm mae'r tim datblygu wedi chwarae yn ddiweddar a hynny yn erbyn tim Cydweli. Fe wnaethant golli o 19 – 7 mewn gêm hynod o gystadleuol.
Bydd ei gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Cefneithin ar Ionawr 14eg, pob dymuniad da i chi bois.

**Timau Mini a Iau.**

Mae timau rygbi Mini a Iau y Seintiau wedi ail ddechrau chwarae, ar ôl egwyl dros y Nadolig, a dymunwn yn dda iddynt am weddill y tymor.







*Lluniau gan Chris Rees*

*Dymuniadau gorau hefyd i'r holl chwaraewyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, aelodau, cefnogwyr a noddwyr ar gyfer 2023. Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth barhaol.*


*Gwyndaf Williams*

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855





gan Guy Manning

# CHWARAEON

## Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tîm 1af**
Dim ond dwy gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae ers Tachwedd 19eg a chafwyd buddugoliaeth yn y ddwy gêm hynny.

Ennill yn erbyn Llandysul adref o 1-0 gyda'r unig gôl yn dod gan Gethin Scourfield yn eiliadau olaf y gêm. Yna ar Rhagfyr 3ydd, cafwyd buddugoliaeth dda iawn yn erbyn Felinfach, oedd yn y trydydd safle, o 2-1. Goliau yn dod gan Gethin Scourfield a'r capten Jac Griffiths.

Yn anffodus bu rhaid gohirio gêm diwrnod Gŵyl San Steffan yn erbyn Crymych oherwydd bod y tywydd oer wedi difrodi ystafelloedd newid y Clwb.

**2il dîm**
Dim ond un gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae, a hynny yn erbyn Felinfach. Colli bu hanes y tîm yn erbyn Felinfach o 2-1 gyda'r unig gol yn dod gan Jake Holland.

Cynhaliwyd noson gwis y Clwb ar ddiwedd mis Tachwedd – diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth ddod i gefnogi a llongyfarchiadau i'r "Login Raiders" am ennill.

Mae'r Clwb yn edrych ymlaen at weddill tymor 2022-2023.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion – http://www.ceredigionleague.co.uk/ neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb. *Rhodri Lewis*

Lluniau o gem yn erbyn Llandysul


Steffan Williams


Dathlu gol Gethin Scourfield yn y munudau olaf

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Menywod**
Nid yw'r menywod wedi chwarae gêm ers canol mis Tachwedd ond rydym yn gobeitho trefnu gemau iddynt yn fuan.

**Ieuenctid**
Dim ond un gêm mae'r tîm ieuenctid wedi chwarae yn ystod yr wythnosau diwethaf - a hynny yn erbyn Llangennech ar Rhagfyr 3ydd.

Hendy Gwyn 15 Llangennech 14.

Sgoriwyd dau gais gan Monty, cic gosb a trosiad gan Lennon Reynolds i sicrhau buddugoliaeth mewn gêm hynod o agos a chystadleuol.

**Tim Cyntaf**
Rhagfyr 3ydd - Penclawdd 24 Hendy Gwyn 24. Cais yr un i Liam Price, Jack Mason a Owyn Griffiths, tair trosiad a cic gosb gan Geraint Jones i sicrhau gêm gyfartal.
10fed - Hendy Gwyn 13 Crymych 23. Gêm galed yn erbyn Crymych ar brynhawn oer ofnadwy. Cais i Marc Jones, un trosiad a dau gic cosb gan Geraint Jones.

26ain - Hendy Gwyn 24 Tim Datblygu Arberth 13. Sgoriwyd dau gais gan Ben Taylor a cais yr un gan Ceirion Evans a Liam Price. Llwyddodd Jonny Thomas gyda dau drosiad i ennill y "Churn" i Hendy Gwyn.

Ionawr 7fed - Bu rhaid gohirio'r gem yn erbyn Gorseinon oherwydd y tywydd ofnadwy. *Suzanne Davies*

## Clwb Rygbi San Cler

**Tim Cyntaf**
Fe wnaeth y tim barhau i chwarae'n dda yn ystod mis Rhagfyr a dechrau Ionawr drwy ennill pob un o'i tair gêm.

Rhagfyr 3ydd – San Cler 21 Aberaeron 16. Sgoriwyd dau gais gan Alun Davies ac un gan Campbell Evans, llwyddodd Daniel Griffiths gyda tair trosiad. Bu'r ddau dîm, yn ôl eu harfer, yn chwarae gêm agored a chyffrous ac mae'r canlyniad wastod yn y fantol tan y funud olaf.

Rhagfyr 10fed – Aberteifi 7 San Cler 19. Sgoriwyd dau gais gan Jac Howells ac un gan Jonathan Gostling, llwyddodd Daniel Griffiths gyda dau drosiad.

parhad ar dudalen 43